



HM Government

Cyfarwyddyd
Dyletswydd Channel:
**Diogelu pobl sy'n
agored i gael eu tynnu
i mewn i derfysgaeth**

Cyfarwyddyd Dyletswydd Channel: Diogelu pobl sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth

**Cyfarwyddyd statudol ar gyfer aelodau o
banel Channel a phartneriaid paneli lleol**

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar www.gov.uk/government/publications

Rhif Ffôn Swyddfa'r Wasg y Swyddfa Gartref: 020 7035 3535
ISBN: 978-1-5286-2102-1
CCS0720814876

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

1. Prevent	5	6. Panel Channel	30
2. Channel	7	Cyfarfodydd Panel	
Monitro cydymffurfiaeth â dyletswydd Channel		Cynlluniau cefnogi	
3. Paneli Channel a phartneriaid panel	10	Risg	
Gofynion i baneli		Cydsyniad am gefnogaeth	
Pennu'r awdurdod arweiniol ar gyfer Channel		Gallu i roi cydsyniad – oedolion, plant a phobl ifanc	
Paneli cyfun		Cefnogaeth i ymdrin â'r duedd i fod yn agored i ddylanwad a ddynodwyd	
Llywodraethu		Monitro cefnogaeth Channel	
4. Rolau panel Channel	14	Cael gafael ar gefnogaeth arbenigol	
Swyddog achos gwrthderfysgaeth yr heddlu a chydlynnydd Channel		<ul style="list-style-type: none"> • Darparwyr Ymyriadau (IPs) • Cronfa Cefnogaeth Ymyrraeth • Hybiau cefnogaeth i bobl sy'n agored i ddylanwad • Gorfodi mewnfudo 	
Cadeirydd yr awdurdod lleol		Atgyfeirio at fathau eraill o gefnogaeth	
Aelodau'r panel		Adolygu achosion Channel	
5. Proses Channel	18	Adolygiadau gadael	
Adnabod unigolion sy'n agored i'r risg o radicaleiddio		Rhannu arferion da	
Y cam atgyfeirio		7. Hyfforddiant	40
Y cam sgrinio a chasglu gwybodaeth		8. Ceisiadau am wybodaeth	42
<ul style="list-style-type: none"> • Diagram o'r Llwybr 		Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth	
Cydweithredu gan bartneriaid panel		Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth	
Rhannu gwybodaeth		Ymholiadau	
Datgelu a chyfrinachedd		9. Diogelu	44
Fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn		10. Atodiadau	46
Cysylltiadau gyda grwpiau eithafol		Atodiad A Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid	
Trosglwyddo achosion Channel		Atodiad B Partneriaid y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu â phaneli lleol	
Cymorth wedi'i dargedu a rheoli troseddwy Channel		Atodiad C Fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolion	
<ul style="list-style-type: none"> • Carchardai • Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol • Ymatal ac Ymddieithrio • Partneriaethau dan arweiniad yr heddlu • Ymchwiliadau'r heddlu • Profiannaeth a throseddwy'r ifanc 		Atodiad D Canllawiau perthnasol eraill	
		11. Geirfa	54

Cyfarwyddyd i aelodau panel a phartneriaid paneli lleol yng Nghymru a Lloegr ar y ddyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Statws a chwmpas y ddyletswydd

1. Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd hwn dan adrannau 36(7) a 38(6) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i gefnogi aelodau o baneli a phartneriaid paneli lleol; rhaid i aelodau o baneli a phartneriaid paneli lleol roi ystyriaeth i'r cyfarwyddyd hwn. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019 yn darparu darpariaeth ychwanegol yn ymwneud â Channel.
2. Mae Adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn nodi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol a phartneriaid paneli lleol i roi cefnogaeth i bobl sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Yng Nghymru a Lloegr, cyflawnir y ddyletswydd hon drwy baneli Channel. Ar gyfer dibenion y cyfarwyddyd hwn, mae'r term 'Channel' yn cyfeirio at y gefnogaeth dan arweiniad yr awdurdod lleol a'r ddyletswydd fel y mae'n cael ei nodi yn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch. Mae cyfarwyddyd ar wahân i gwmpasu'r Alban.
3. Anelwyd y cyfarwyddyd hwn yn benodol at aelodau a phartneriaid paneli lleol sy'n ymwneud â'r broses Channel. Gellir gweld y rhestr o bartneriaid paneli lleol sy'n ddarostyngedig i'r ddarpariaeth yn Atodlen 7 i'r Ddeddf (sy'n cael ei hatgynhyrchu yn Atodiad B i'r cyfarwyddyd hwn). Fel dyletswydd statudol ddynodedig, dylai gofynion Channel gael eu hadlewyrchu mewn polisi, canllawiau lleol perthnasol a chyfansoddiad yr awdurdod lleol.
4. Diben y ddogfen hon yw:
 - rhoi cyfarwyddyd i baneli Channel
 - rhoi cyfarwyddyd i bartneriaid paneli ar gyflawni Channel (hynny yw, yr awdurdodau hynny a restrir yn Atodlen 7 o'r Ddeddf y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu gyda phaneli Channel a'r heddlu i gyflawni eu swyddogaethau perthnasol dan adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch – mae'r rhestr hefyd yn cael ei hailadrodd yn Atodiad B i'r cyfarwyddyd hwn)
 - esbonio pam y gall pobl fod yn agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth a disgrifio dangosyddion a all awgrymu hynny
 - rhoi cyfarwyddyd ar y gefnogaeth y gellir ei rhoi i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth
 - esbonio sut yr asesir atgyfeiriad Prevent i benderfynu addasrwydd ar gyfer cefnogaeth drwy Channel

Adran 1:

Prevent

5. Nod Prevent yw lleihau'r bygythiad i'r Deyrnas Unedig oherwydd terfysgaeth drwy atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae gwaith cyflawni Prevent wedi'i seilio ar ymyrraeth gynnar a diogelu.
6. Mae Prevent yn ymdrin â phob ffurf ar derfysgaeth ac rydym yn parhau i roi blaenoriaeth yn ôl y bygythiad y maent yn ei greu i ddiogelwch cenedlaethol. Bydd dyrannu adnoddau yn gymesur â'r bygythiadau yr ydym yn eu hwynebu. Ar hyn o bryd mae'r bygythiad mwyaf arwyddocaol o'r rhain gan sefydliadau terfysgol yn gysylltiedig ag Al Qa'ida, Daesh, terfysgwyr yn gysylltiedig â syniadaeth asgell dde eithafol a gweithredwyr unigol sy'n cael eu hysbrydoli gan sefydliadau o'r fath.¹
7. Mae gan Prevent dri amcan yn CONTEST:
 - mynd i'r afael ag achosion radicaleiddio ac ymateb i her ideolegol terfysgaeth
 - diogelu a chefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl mwyaf o radicaleiddio drwy ymyrryd yn gynnar, gan eu nodi a chynnig cymorth
 - galluogi'r rhai hynny sydd eisoes wedi ymgymryd â therfysgaeth i ddadymgysylltu ac adsefydlu
8. Mae Llywodraeth y DU yn parhau yn hollol ymroddedig i ddiogelu rhyddid i lefaru. Ond bydd atal terfysgaeth yn golygu herio syniadau eithafol (a heb fod yn dreisgar) sydd hefyd yn rhan o syniadaeth terfysgwyr, yn cynnwys achosion o syniadaeth aneglur, gymysg neu ansefydlog. Mae Prevent hefyd yn hwyluso ymyriadau i atal pobl rhag symud o weithgaredd eithafol i weithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.
9. Mae'r Strategaeth Gwrthderfysgaeth yn diffinio eithafiaeth fel 'gwrthwynebiad llafar neu weithredol i'n gwerthoedd sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigolion a pharch a goddefgarwch tuag at gredoau a ffydd gwahanol. Rydym hefyd yn ystyried galwadau am farwolaeth aelodau o'n lluoedd arfog yn eithafol.'²

¹ Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth. Mae'r perygl a'r bygythiad i'r Deyrnas Unedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau'n unol â hynny.

² https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/470088/51859_Cm9148_Accessible.pdf

10. Mae Adran 26 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn rhoi dyletswydd ar rai cyrff wrth arfer eu swyddogaethau, i roi 'ystyriaeth ddyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ar wahân ar y ddyletswydd Prevent.³
11. Mae Channel yn rhan allweddol o Prevent. Mae'r broses yn mabwysiadu dull amlasiantaethol o adnabod a rhoi cefnogaeth i unigolion sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Nid oes proffil pendant o derfysgwyr, felly nid oes trothwy diffiniedig ar gyfer pennu a yw unigolyn mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Fodd bynnag, gellir defnyddio arwyddion o farn eithafol yn cael ei mynegi i asesu a ddylid cynnig cefnogaeth gynnar. Yn wahanol i ddiogelwch prif ffrwd ar gyfer oedolion a phlant, nid oes trothwy ar gyfer gwneud atgyfeiriad Prevent i unigolyn gael mynediad at asesiad a chefnogaeth arbenigol. Gall fod yna achosion sy'n gofyn am ymateb diogelu ar y cyd â Prevent.
12. Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng unigolion sy'n 'agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth' y mae angen cefnogaeth Channel arnynt a'r rheiny sy'n peri'r 'risg o derfysgaeth' y mae angen yr heddlu eu rheoli. Mae'r broses ar gyfer cynnal asesiadau o risg a breguswydd yn llywio'r penderfyniad hwn ac fe'i hadolygir yn rheolaidd. Os yw'r risg yn cynyddu, gall yr heddlu dynnu achos oddi wrth Channel os yw'n briodol.

Enghraifft ymarfer 1: 'agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth'

Er nad yw'n gynhwysfawr, gallai hyn gynnwys achosion lle mae unigolion:

- yn edrych ar ddeunyddiau eithafol
- yn cefnogi naratif eithafol wedi'i sgriptio
- yn arddangos newidiadau difrifol mewn ymddygiad mewn perthynas â'n diffiniad gweithredol o eithafiaeth
- wedi cael amlygiad trawmatig, o bosib, i barthau gwrthdaro
- yn anoddefgar iawn tuag at bobl o gefndiroedd ethnig a diwylliannau gwahanol, neu'r rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010

Gall anghenion cymhleth eraill chwarae rhan yn dwysáu naratif o anniddigrwydd.

Bydd yr asesiad porth a gynhelir gan yr heddlu yn penderfynu yn y pen draw p'un a yw unigolyn yn addas am ystyriaeth gan banel Channel.

Astudiaeth Achos 1: 'syniadaeth aneglur, gymysg neu ansefydlog'

Mae person ifanc yn derbyn triniaeth ar gyfer iselder, sydd wedi cynnwys meddwl am hunanladdiad.

Mae cymorth gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi nodi pryderon ynghylch obsesiwn cynyddol ag achosi nifer fawr o anafiadau yn eu hysgol, sydd wedi cynyddu, i bob golwg, ers derbyn gwaharddiad o'r ysgol am ymddygiad treisgar.

Yn ddiweddar, datgelodd y person ifanc eu bod wedi ymgysylltu ag ystafelloedd sgwrsio lle maent wedi derbyn anogaeth i gyflawni'r gweithredoedd hyn.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance>

Adran 2:

Channel

Lloegr yn Ebrill 2012 cyn ei sefydlu ar seiliau statudol yn 2015. Mae Channel yn canolbwyntio ar roi cefnogaeth yn gynnar i bobl sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae Adran 36(1) (a) a (b) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn ymwneud â phanel Channel yng Nghymru a Lloegr a dylai fod yn bartneriaeth amlasiantaethol sydd â swyddogaeth benodol yn unol ag adran 36(4). Mae Channel yn defnyddio dull amlasiantaethol i:

- adnabod unigolion sydd â risg
- asesu natur a graddfa'r risg
- datblygu'r cynllun cefnogi mwyaf addas i'r unigolion dan sylw

14. Mae Channel yn darparu cefnogaeth gynnar i unrhyw un sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i unrhyw ffurf ar derfysgaeth neu gefnogi sefydliadau terfysgol, waeth beth fo'u hoedran, ffydd, ethnigrwydd neu gefndir. Gall unigolion dderbyn cefnogaeth cyn i'r rhai sydd am iddynt dderbyn terfysgaeth fanteisio ar eu natur fregus, a chyn iddynt ymwneud â gweithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth droseddol. Dylai'r achosion a atgyfeirir at Channel fod yn rhai sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Ni

ddylai Channel dderbyn achosion lle nad oes bregusrwydd o'r fath yn bodoli.⁴

15. Mae llwyddiant Channel yn dibynnu ar gydweithio a gweithredu wedi'i drefnu gan bartneriaid. Mae'n gweithio orau pan fydd yr unigolion a'u teuluoedd yn ymwneud â'r rhaglen ac yn cael cefnogaeth mewn modd cyson. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ymwneud â chydysynio i dderbyn cefnogaeth Channel ac ymgysylltu unigolion a'u teuluoedd yn Adran 6 y cyfarwyddyd hwn.
16. Mae'r heddlu neu'r awdurdod lleol yn trefnu gweithgareddau drwy ofyn am wybodaeth berthnasol gan bartneriaid y panel am unigolyn sydd wedi'i atgyfeirio. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud asesiad cychwynnol o natur a graddfa'r bregusrwydd sydd gan yr unigolyn. Bydd yr wybodaeth wedyn yn cael ei chyflwyno i banel.

⁴ Yn ymwneud ag unrhyw drosedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, yn unol ag ehangder deddfwriaeth terfysgaeth y DU (yn cynnwys y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch; Deddf Terfysgaeth 2000 a diwygiadau; Deddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth 2011; Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019).

17. Bwriad y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yw sicrhau cydweithrediad lleol effeithiol a chyflwyno Channel ym mhob ardal, ac adeiladu ar yr arferion da sydd eisoes yn gweithredu mewn sawl ardal. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:
- bod gan awdurdodau lleol banel Channel yn eu hardal
 - bydd yr awdurdod lleol yn darparu cadeirydd ac is-gadeirydd y panel
 - bydd y panel yn datblygu cynllun cefnogi i unigolion a dderbynnir fel achosion Channel
 - lle nad yw Channel yn briodol, bydd y panel yn ystyried ffurfiau eraill o gefnogaeth, gan gynnwys gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol
 - bydd y panel yn sicrhau y cedwir cofnodion cywir yn manylu'r cynllun cefnogi, gweithredoedd cytunedig a phenderfyniadau, a chanlyniadau
 - bydd yr holl bartneriaid panel (fel y nodir yn Atodlen 7), cyn belled ag y mae'n addas ac yn rhesymol o ymarferol, yn cydweithredu gyda'r heddlu a'r panel i gyflawni eu swyddogaethau

Monitro cydymffurfiaeth â dyletswydd Channel

18. Mae Adrannau 36(7) a 38(6) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol bod paneli a phartneriaid yn ystyried y cyfarwyddyd hwn wrth arfer swyddogaethau'r panel ac mewn cydweithrediad â'r panel a'r heddlu wrth gyflawni eu swyddogaethau. Ceir y pŵer i roi cyfarwyddyd lle nad yw awdurdod penodedig wedi llwyddo i gyflawni'r ddyletswydd a osodir arno gan adran 26(1) dan adran 30 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch. Rhaid i'r holl awdurdodau penodedig gydymffurfio â'r ddyletswydd hon a bydd disgwyl iddynt gynnal cofnodion addas i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau ac yn rhoi adroddiadau pan ofynnir am hynny.

19. Mae dysg genedlaethol wedi amlygu pwysigrwydd cydymffurfio â phrosesau Channel i leihau'r risg o unigolion yn cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth neu ei gefnogi. Dylai cyfrifoldebau monitro a goruchwyllo eistedd fel rhan o drefniadau llywodraethu lleol o fewn yr awdurdod lleol. Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r gofynion hyn yn Adran 3 y cyfarwyddyd hwn. Yn genedlaethol, mae fframwaith monitro ac uwchgyfeirio estynedig wedi cael ei ddatblygu i asesu cydymffurfiaeth a chryfhau cysondeb arferion gweithredol sy'n ofynnol i leihau'r risg o unigolion yn cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, drwy ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd i baneli ac aelodau panel fel sy'n ofynnol.

20. Mae'r fframwaith monitro ac uwchgyfeirio yn cynnwys:

- adolygu data atgyfeiriadau ac achosion yn defnyddio system rheoli achosion gymeradwy'r Swyddfa Gartref
- cynnal arsylwadau Channel
- darparu cefnogaeth drwy adolygiad cymheiriaid
- cynnig hyfforddiant i'r panel neu'r cadeirydd

21. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno sefydlu rhwydweithiau cymheiriaid Channel rhanbarthol a all hwyluso rhannu arferion da, gan ddarparu ffynhonnell arall o gyngor a chefnogaeth i'w gilydd.

22. Mae Prevent a Channel bellach yn ymddangos o fewn ystod o drefniadau arolygu. Mae glynu at y cyfarwyddyd hwn yn darparu sicrwydd ychwanegol bod gofynion traws-sector i ddiogelu pobl sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth yn cael eu bodloni.⁵

⁵ Mae trefniadau arolygu megis y Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted), y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ac Arolygiaeth Cwnstabiolaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMCFRS) yn cynnwys elfennau o Prevent yn eu fframweithiau arolygu. Gellir cychwyn rhai o'r arolygiadau hyn pam mae pryderon yn cael eu codi.

Enghraifft ymarfer 2: monitro cydymffurfiaeth

Mae gweithiwr newydd ei benodi wedi mabwysiadu cyfrifoldebau cadeirydd Channel mewn ardal awdurdod lleol ac mae wedi sylwi nad yw prosesau'r panel yn alinio â'r cyfarwyddyd cenedlaethol.

Cyflawnir hunanasesiad gyda mewnbwn gan aelodau'r panel a cheisir allbwn allanol i adolygydd cymheiriaid Channel arsylwi ar gyfarfod panel Channel.

Gwneir argymhellion ar gyfer gwella, ac mae'r rhain, ar y cyd â'r archwiliad hunanasesu yn cael eu defnyddio i gytuno ar gynllun gwella chwe mis.

Enghraifft ymarfer 3: monitro cydymffurfiaeth

Nid yw ardal wedi cael achosion Channel bywers 10 mis, er bod system rheoli achosion y Swyddfa Gartref yn amlygu bod atgyfeiriadau yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae aelod o dîm y Swyddfa Gartref yn mynychu cyfarfod panel Channel i arsylwi ac mae'n adnabod amharodrwydd aelodau panel i fabwysiadu achosion o ganlyniad i'r stigma canfyddedig parthed unigolion. Caiff atgyfeiriadau yn hytrach, eu hailgyfeirio at fforymau rheoli achosion amgen am drafodaeth.

Mae arsyllwr y Swyddfa Gartref yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn cynnwys, defnyddio'r rhaglen ar unwaith ac mae'n awgrymu mynediad at hyfforddiant sydd ar gael.

Caiff cynnydd atgyfeiriadau ei fonitro yn y Swyddfa Gartref am gyfnod gyda'r nod o gynnig rhagor o gymorth os oes angen.

Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio gyda Phencadlys Gwrthderfysgaeth yr Heddlu i rannu unrhyw bryderon a chytuno ar gamau angenrheidiol ar gyfer gwella mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a'r heddlu.

Adran 3:

Paneli Channel a phartneriaid panel

Gofynion i baneli

- 23.** Mae Adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod panel Channel yn ei le ar gyfer eu hardal. Mae hyn yn golygu un panel, gydag un cadeirydd, yn ymdrin ag anghenion oedolion a phlant.⁶ Dylai cadeirydd Channel yr awdurdod lleol ac aelodau'r panel fod â hyder bod eu trefniadau yn addas i ddarparu ar gyfer y breguswydd unigryw a gysylltir â'r rhai a all gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth neu ei gefnogi.
- 24.** Fel gofyniad lleiaf, dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu gwasanaethu a'u gweinyddu'n briodol. Dylai cadeirydd y panel Channel gael manylion cyswllt ar gyfer partneriaid lleol perthnasol yn eu hardaloedd a'r gallu i alw cyfarfodydd ar fyr rybudd os bydd angen.
- 25.** Mae Adran 37(5) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i baneli Channel gael eu cadeirio gan awdurdod lleol cyfrifol (hynny yw, yr awdurdod sy'n gyfrifol am sicrhau bod panel yn ei le). Rhaid

i aelodau'r panel gynnwys yr awdurdod lleol cyfrifol a'r heddlu ar gyfer yr ardal awdurdod lleol perthnasol dan adran 37(1) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch, a hwy sydd â'r prif gyfrifoldeb am Channel yn eu hardaloedd. Dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y diffiniad o awdurdod lleol yw un o'r canlynol:

- cyngor sir yn Lloegr
- cyngor dosbarth yn Lloegr, heblaw cyngor dros ddosbarth mewn sir y mae cyngor sir ar ei gyfer
- Cyngor Bwrdeistref yn Llundain
- Cyngor Cyffredin Dinas Llundain yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod lleol
- Cyngor Ynysoedd Sili
- cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru
- cyngor a gyfansoddwyd dan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac ati (Yr Alban) 1994

⁶ Ac eithrio mewn achosion lle mae trefniadau ar y cyd wedi'u cytuno.

26. O ran awdurdodau dwy haen, cyfrifoldeb y cyngor sir yw cadeirio'r panel a chymryd yr holl gyfrifoldebau a nodir yn Adran 4 y cyfarwyddyd hwn.
27. Mae Adran 38 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn rhoi dyletswydd i gydweithio ar yr holl bartneriaid mewn panel, cyn belled ag y mae'n addas ac yn rhesymol o ymarferol, i gynorthwyo'r heddlu a'r panel i gyflawni eu swyddogaethau dan y Ddeddf. Bydd cadeirydd yr awdurdod lleol a'r heddlu yn bresennol ym mhob panel. Mae Atodlen 7 i'r Ddeddf yn rhestru'r holl bartneriaid y mae'n ofynnol iddynt gydweithio gyda'r panel (gweler Atodiad B), ynghyd ag aelodau eraill, fel y pennir gan y panel (adran 37(4)). Os bydd y panel yn dewis un o'r partneriaid Atodlen 7 i fod yn aelod, mae disgwyliad i'r partner gytuno i eistedd ar y panel os gofynnir iddo wneud hynny.
28. Gan ddibynnu ar natur yr atgyfeiriad, gall y panel hefyd gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gynrychiolwyr o'r grwpiau canlynol:
- GIG
 - gweithwyr cymdeithasol
 - ysgolion, colegau addysg bellach a phrifysgolion
 - gwasanaethau troseddwy'r ifanc
 - gwasanaethau plant ac oedolion
 - trefniadau diogelu lleol
 - rheolwyr diogelu awdurdod lleol (oedolion a/ neu blant)
 - gwasanaethau Help Cynnar awdurdod lleol
 - Mewnfudo'r Swyddfa Gartref (Gorfodi Mewnfudo, Fisas a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig)
 - Llu'r Ffiniau
 - tai
 - carchardai
 - darparwyr profiannaeth

29. I sefydliadau nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd Prevent, gall fod yna ddisgwyliad i ymgysylltu â'r panel Channel ar gyfer yr ardal os yw'n ofynnol. Er enghraifft, mae trefniadau contract y GIG yn cynnwys rhwymedigaeth gytundebol i roi sylw i Prevent, a all ei gwneud yn briodol i ymgysylltu â'r panel Channel lleol.

Pennu'r awdurdod arweiniol ar gyfer Channel

30. Os bydd achos yn cynnwys ardaloedd dau neu fwy o awdurdodau lleol (e.e. mae'r unigolyn yn byw yn un awdurdod, ond yn gweithio neu yn mynd i'r ysgol mewn un arall, neu pe bai plentyn sy'n derbyn gofal yn gyfrifoldeb i un awdurdod, ond yn cael ei gartrefu mewn un arall) yna'r awdurdod arweiniol at ddibenion Channel yw'r awdurdod lle mae'r unigolyn yn preswyllo bob amser. Mae dau reswm am hyn:
- bydd yr unigolyn yn defnyddio gwasanaethau lleol yn eu preswylfa
 - mae cyfrifoldebau gwrthderfysgaeth yr heddlu yn cynnwys rheoli risg yn eu hardal blismona berthnasol
31. Ni ddylai'r unigolyn yn gadael yr ardal dros dro effeithio ar hyn. Lle lleolir unigolion y tu allan i'w preswylfa arferol dros dro, bydd yr awdurdod lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am gynnal y panel.⁷ Lle pennir nad oes gan oedolyn breswylfa sefydlog, yna'r awdurdod arweiniol ar gyfer Channel yw'r awdurdod lle maent yn bresennol yn gorfforol.

⁷ Mae'r llysoedd wedi arddel nad yw absenoldebau dros dro neu ddamweiniol, gan gynnwys, er enghraifft, gwyliau neu ymweliadau ysybytu mewn ardal arall, o reidrwydd yn torri parhad preswylfa arferol, a dylai awdurdodau lleol gymryd hyn i ystyriaeth.

32. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyfrifol am oruchwylio a rhoi cyfarwyddyd ar breswylfa arferol, ac os yw'n ofynnol o anghydfodau preswylfa arferol, yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Gofal 2014 yn ogystal â Chanllawiau Statudol Gofal a Chymorth 2015.⁸

Astudiaeth achos 2: enghraifft preswylfa ac awdurdod arweinïol

Mae plentyn 12 oed yn destun gorchymyn gofal gan ardal A, sydd wedi'i leoli mewn cartref plant yn ardal B.

Mae'r darparwr llety wedi cyflwyno atgyfeiriad yn dilyn pryderon ei fod yn cael ei ddylanwadu gan radicaliaid yn yr ysgol.

Ymdrinnir â'r atgyfeiriad yn ardal B, lle mae'r plentyn bellach yn preswyllo a chaiff ei roi ar raglen Channel. Mae gofal cymdeithasol yn ardal A yn rhoi cydsyniad i'r plentyn dderbyn cefnogaeth Channel.

Mae gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn ardal A yn mynychu neu'n adrodd i mewn i gyfarfodydd Channel ac yn sicrhau bod ei gynllun gofal yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau, gan fynd ar drywydd unrhyw weithredodd gofal cymdeithasol fel sy'n ofynnol.

Byddai unrhyw ymyriadau eraill, megis mynediad at Connexions, mewnbwn gan yr ysgol a chefnogaeth iechyd meddwl, yn cael eu darparu drwy ardal B.

Gall Ardal B godi unrhyw bryderon sydd ganddi am y cynllun gofal uniongyrchol gyda gofal cymdeithasol yn ardal A neu drwy Swyddog Adolygu Annibynnol Ardal A. Gwnaed cyswllt â'r ysgol i ystyried atgyfeiriadau a chefnogaeth yn yr ysgol mewn perthynas â mynd i'r afael â'r dylanwadau radicaleiddio yno.

Paneli cyfun

33. Mae Adran 41(3) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn gwneud darpariaethau i ddau neu fwy o awdurdodau lleol gael panel yn ei le ar gyfer ardal wedi'i chyfuno, gan ganiatáu ar gyfer defnydd cymesur ac effeithlon o adnoddau. Lle mae awdurdodau lleol yn penderfynu rhedeg paneli ar y cyd â mwy nag un awdurdod lleol arall, gall yr awdurdodau benderfynu rhyngddynt pwy ddylai gadeirio'r cyfarfod. Dylai aelodau'r panel a'r cadeirydd fod yn fodlon bod y panel cyfun yn addas i'r diben ac y bydd yn rheoli'r bregusrwydd i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth sy'n gysylltiedig ag achosion a gefnogir drwy'r rhaglen Channel yn effeithiol.
34. Dylai paneli cyfun gael yr aelodau canlynol:
- cynrychiolaeth o bob awdurdod lleol sy'n berthnasol i'r atgyfeiriadau ac achosion i'w trafod
 - cynrychiolaeth yr heddlu ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol sy'n berthnasol i'r atgyfeiriadau ac achosion
 - aelodau eraill o'r panel fel y bydd yr atgyfeiriadau a'r achosion yn pennu, a all hefyd gynnwys partneriaid a restrir ym mharagraff 28

⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/care-act-statutory-nce/care-and-support-statutory-guidance#Chapter19>

Enghraifft ymarfer 4: paneli cyfun

Penderfynodd ardal lle na fu unrhyw achosion Channel am 12 mis ffurfio panel Channel cyfun ag awdurdod cyfagos sydd hefyd â nifer isel o achosion Channel.

Roedd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob mis ymlaen llaw, ond dim ond pan oedd y panel yn ystyried atgyfeiriadau neu achos byw yr oeddent yn cael eu galw.

Roedd cyfrifoldebau cadeirydd ac is-gadeirydd yn cael eu rhannu rhwng y ddwy ardal, gyda'r ddau yn mynychu cyfarfodydd panel, gan ddarparu cyfle i'w sgiliau, profiad a'u hamlygiad i achosion gael eu diweddarau.

Galwyd cyfarfod panel llawn bob chwarter i adolygu arferion a chytuno ar ddatblygiad y panel.

Llywodraethu

35. Mae paneli Channel fwyaf effeithiol pan mae prosesau llywodraethu clir yn eu lle i ddarparu goruchwyliaeth leol a sicrhau atebolrwydd. Dylai pob ardal awdurdod lleol bennu'r trefniadau llywodraethu mwyaf priodol ar gyfer eu panel Channel. Lle mae panel cyfun, dylai llywodraethu Channel fwydo i mewn i drefniadau amlasiantaethol fel sy'n briodol ar gyfer pob awdurdod. Gallai cyfrifoldebau llywodraethu gael eu dal gan bartneriaethau amlasiantaethol statudol presennol, megis Partneriaethau Diogelwch Cymunedol neu Grwpiau Strategaeth Sirol, neu drwy gyrff strategol lleol eraill megis gyrff CONTEST.
36. Gallai swyddogaethau'r trefniadau llywodraethu gynnwys asesu cydymffurfiaeth â gofynion dyletswydd Channel, goruchwyllo'r gwaith o weithredu cynlluniau datblygu, ac adolygu data atgyfeirio ac astudiaethau achos dienw i fonitro perfformiad. I sicrhau y cynhelir llinellau clir o atebolrwydd, argymhellir na ddylai'r cadeirydd dros lywodraethu strategol fod yn gyfrifol am elfennau o oruchwyllo neu gyflawni panel Channel. Dylai'r strwythur llywodraethu strategol lleol ddarparu data perthnasol i lywio datblygiad y proffil gwrthderfysgaeth lleol (CTLTP) ar gyfer yr ardal, yn ogystal â chael ei frifio ar gynnwys CTLTP a bod yn ymwybodol o newidiadau i'r darlun o ran y bygythiad yn lleol.⁹ Dylid cytuno ar broses uwchgyfeirio hefyd a'i dosbarthu i aelodau panel, gan alluogi i bryderon ynghylch ffurf neu swyddogaeth y panel Channel yn yr ardal gael eu codi.
37. Dylai manylion am sut mae codi pryderon Prevent neu atgyfeirio unigolion am asesiad i dderbyn cefnogaeth gael eu hyrwyddo'n lleol gan yr awdurdod lleol a phartneriaid. Dylid defnyddio'r Ffurflen Atgyfeirio Prevent Genedlaethol i wneud atgyfeiriadau lle bynnag y bo'n bosibl.

⁹ Adroddiad yw CTLTP sy'n amlinellu'r bygythiad a bregusrwydd o weithgaredd yn gysylltiedig â therfysgaeth mewn ardal benodol. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan Heddlu Gwrthderfysgaeth lleol.

Adran 4:

Rolau panel Channel

Swyddog achos gwrthderfysgaeth yr heddlu a chydlynnydd Channel

- 38.** At ddiben y cyfarwyddyd hwn, mae unrhyw gyfeiriad at y Swyddog Achos Channel naill ai'n cyfeirio at swyddog achos gwrthderfysgaeth yr heddlu (CTCO) neu'r cydlynnydd Channel a ariennir gan y Swyddfa Gartref, sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol.¹⁰
- 39.** Mae pob Swyddog Achos Channel yn gyfrifol am:
- reoli atgyfeiriadau ac achosion drwy'r broses Channel yn unol â'r cyfarwyddyd Channel ac egwyddorion rheoli achos
 - sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu trin yn gyflym, a phan fydd hynny'n addas, yn cael eu dwyn i sylw'r panel Channel cyn gynted â phosibl
 - sicrhau bod gwybodaeth achos yn cael ei chofnodi a'i chadw'n gywir ar system rheoli achosion gymeradwy'r Swyddfa Gartref
 - adolygu a diwygio'r fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn yn rheolaidd fel mae achos yn mynd yn ei flaen i adlewyrchu'n gywir yr holl fregusrwydd a risg perthnasol.

Yn ogystal, mae'r CTCO yn gyfrifol am:

- asesu unrhyw risg gynyddol sy'n gysylltiedig ag ymwneud posibl yr unigolyn â gweithgaredd yn gysylltiedig â therfysgaeth a throsglwyddo achosion i bartneriaeth dan arweiniad yr heddlu neu i Pursue lle bynnag y bo'n briodol.¹¹
- 40.** Dylai'r CTCO fynychu pob panel Channel. Dylai'r cadeirydd hefyd ystyried gwerth cael heddlu lleol fel aelodau sefydlog i ychwanegu cyd-destun lleol a darparu cefnogaeth leol ac opsiynau tactegol.

Cadeirydd yr awdurdod lleol

- 41.** Mae Adran 37(2) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn pennu gofynion yn ymwneud â chynrychiolaeth yr awdurdod lleol a'r heddlu. Dylai cynrychiolydd yr awdurdod lleol, y cadeirydd Channel, fod yn swyddog dynodedig o fewn yr awdurdod lleol cyfrifol. Lle mae panel yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, bydd y cyfrifoldebau cadeirio yn cael eu cytuno rhwng yr awdurdodau.

¹⁰ Mae'r rôl cydlynnydd Channel y cyfeirir ati yma yn ymwneud yn unig â'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi'u dynodi gan y Swyddfa Gartref i wneud y penderfyniad dan adran 36.

¹¹ Cangen yw Pursue o Contest 2018 wedi'i hanelu at atal ymosodiadau terfysgol yn y wlad hon ac yn erbyn ein buddiannau dramor.

42. Mae swyddogaeth cadeirio panel Channel yn gyfrifoldeb sylweddol, ac o ganlyniad dylai Prif Swyddog Gweithredol yr awdurdod lleol, neu'r Pennaeth Gwasanaethau Cyflogedig cyfwerth, fod yn fodlon bod y cadeirydd dynodedig yn 'berson yr ystyrir bod ganddynt y sgiliau a'r profiad gofynnol' a sicrhau bod ganddynt allu ac adnoddau digonol i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Dylent fod yn swyddog gyda'r awdurdod priodol i hwyluso ymgysylltiad partneriaid amlasiantaethol a chyfeiriad eu hadnoddau i gynorthwyo gyda chyflawni'r cynllun cefnogaeth. I ymgorffori gwytnwch yn y broses, dylid neilltuo rôl is-gadeirydd i swyddog o statws tebyg i'r cadeirydd. Bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am Ddatganiad Sicrwydd blynyddol yn cynnwys manylion am y swyddogion enwebedig a ddynodwyd gan y Prif Swyddog Gweithredol i gyflawni'r rolau hyn ac yn cadarnhau bod trefniadau addas yn eu lle i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd hwn. Rhaid hysbysu'r Swyddfa Gartref am unrhyw newidiadau i'r swyddogion enwebedig sy'n cyflawni'r rolau cadeirydd/is-gadeirydd.
43. I alluogi'r cadeirydd/is-gadeirydd i gymryd perchnogaeth lawn o'r broses Channel a herio'n briodol lle bo angen, dylai'r ddwy rôl feddu ar ychydig o annibyniaeth ar raglenni a ariennir gan y Swyddfa Gartref sydd â chyfrifoldeb am Prevent neu elfennau o gyflawni Channel. Fel gofyniad lleiaf, dylid cymhwysu'r cymwyseddau craidd canlynol wrth benodi cadeirydd/is-gadeirydd, i sicrhau bod paneli Channel a'r cyfrifoldebau cadeirio yn cael eu cyflawni i safon sy'n gyson uchel:
- meddu ar awdurdod digonol i gyfarwyddo cyflawni amlasiantaethol
 - meddu ar brofiad blaenorol o gadeirio cyfarfodydd amlasiantaethol
 - meddu ar ddealltwriaeth gadarn o Channel, o fewn cyd-destun Prevent a CONTEST
 - ddim yn gweithio mewn rôl a ariennir gan y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am elfennau o gyflawni Channel neu Prevent
 - ymrwymo i gwblhau hyfforddiant fel sy'n ofynnol
44. Er nad yw'n orfodol, argymhellir bod cadeiryddion/is-gadeiryddion paneli Channel yn caffael cliriad Fetio Cenedlaethol y DU ar lefel 'Gwiriad Diogelwch' (SC) i alluogi'r heddlu i rannu mwy o wybodaeth sensitif â'r cadeirydd Channel fel rhan o'u cyfrifoldebau Channel a chryfhau ymwneud yr awdurdod lleol â rheoli achosion partneriaeth dan arweiniad yr heddlu. Dylid cyfeirio ceisiadau am gliriad fetio diogelwch at y Swyddfa Gartref.
45. Mae cadeirydd y panel Channel yn gyfrifol am:
- oruchwylio pob achos Channel yn eu hardal;
 - sicrhau bod y cynrychiolwyr priodol yn cael eu gwahodd i bob cyfarfod fel aelodau o'r panel
 - sefydlu perthnasoedd effeithiol ar draws partneriaid y panel i sicrhau cydweithio effeithiol o ran rhannu gwybodaeth, presenoldeb yng nghyfarfodydd y panel a darparu cefnogaeth
 - sefydlu'r cynllun cefnogi priodol i unigolion a ddynodwyd, sy'n cymryd i ystyriaeth cyd-destun teuluol ehangach ac anghenion, drwy ddefnyddio arbenigedd y panel
 - sicrhau bod bregusrwydd personau sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth yn cael ei asesu gan y panel a'i adlewyrchu'n briodol yng nghofnodion Channel
 - sicrhau bod cynllun cefnogi effeithiol yn cael ei drefnu, a bod cydsyniad yn cael ei geisio gan yr unigolyn (neu eu cynrychiolydd) cyn i'r cynllun gael ei ddefnyddio
 - sicrhau bod yr aelod panel mwyaf priodol yn cael y dasg o ddiweddarau unigolion/teuluoedd ynglŷn â chynnydd lle bo'n briodol

- sicrhau bod unigolion a/neu sefydliadau ar y panel yn cyflawni eu helpennau o'r cynllun cefnogi, gan wneud partneriaid yn atebol lle bo angen drwy reolaeth ragweithiol o weithredoedd, ymholiadau ac ymyriadau
- sicrhau bod yr holl benderfyniadau a'r rhesymeg y tu ôl iddynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghofnodion y panel Channel
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn briodol lle mae unigolion yn trosglwyddo rhwng gwasanaethau
- sicrhau bod y panel yn gweithredu'n effeithiol i ymdrin â'r duedd i fod yn agored i ddylanwad a ddynodwyd
- ymdrin â, neu uwchgyfeirio, materion o ddatgysylltu o fewn sefydliadau partner neu bryderon yn ymwneud â ffurf neu swyddogaeth Channel lleol, yn weithredol drwy drefniadau llywodraethu lleol lle bo angen
- cymhwyso barn broffesiynol a bwrw pleidlais ar fabwysiadu achosion lle nad oes consensws ymhlith aelodau'r panel
- amlygu a mynnu bod bylchau a nodwyd o ran darpariaeth gwasanaethau lleol yn cael eu hystyried gan gomisiynwyr
- sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth yn eu lle ar gyfer y panel mewn cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018), ar y cyd â thimau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth lleol¹²
- cysylltu â thimau awdurdod lleol eraill (megis amddiffyn plant ac oedolion) os yw'n briodol, i sicrhau bod cefnogaeth Channel yn alinio a chydlynu â phrosesau diogelu eraill

46. Dylai'r Swyddog Achos Channel frifio'r cadeirydd cyn y panel i gynorthwyo gyda gosod yr agenda, paratoi ar gyfer y cyfarfod ac adnabod yr aelodau panel priodol sydd angen bod yn bresennol. Dim ond ar gyfer darparu crynodeb o'r atgyfeiriadau i'w hystyried gan y panel y dylid defnyddio'r sesiwn frifio ymlaen llaw; dylai fod yn gryno ac ni ddylid ei thrin fel fforwm gwneud penderfyniadau neu hidlydd ar gyfer ystyried atgyfeiriadau Channel.

Aelodau'r panel

47. Mae'r cyfraniad amlasiantaethol at y broses Channel yn hanfodol i sicrhau bod gan unigolion sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth fynediad at amrywiaeth eang o gefnogaeth, o wasanaethau arbenigol i weithgareddau dargyfeiriol. Mae'r cyfraniad amlasiantaethol at Channel yn hanfodol i sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth ar gael i'r panel, fel y gellir asesu bregusrwydd, risg ac anghenion cefnogaeth yn llawn.
48. Mae gan aelodau panel gyfrifoldeb i weithio ar y cyd â'r cadeirydd a phartneriaid y panel i gynorthwyo gyda lliniaru'r risg a bregusrwydd a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd panel fel sy'n ofynnol, cyfrannu at y cynllun cefnogi, a rhannu gwybodaeth sy'n angenrheidiol a chymesur i weithrediad effeithiol y panel (yn unol â chytundeb rhannu gwybodaeth y panel a gytunwyd yn lleol). Mae aelodau panel yn mynychu'r panel Channel lleol nid fel arbenigwyr mewn gwrthderfysgaeth, ond fel arbenigwyr yn eu proffesiwn priodol a'r ddarpariaeth gwasanaethau a chefnogaeth ar gael yn lleol. Lle bo'n bosibl, dylai aelodaeth o Channel fod yn gyson i sicrhau rheolaeth effeithiol o achosion.

¹² Y GDPR a DPA 2018 yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n rheoli prosesu data yn ymwneud ag unigolion. Gellir gweld rhagor o fanylion yn Atodiad A y cyfarwyddyd hwn.

49. Mae Atodlen 7 i'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn cynnwys manylion am y partneriaid y mae gofyn iddynt gydweithio â phaneli lleol (gweler Atodiad B), er dylid teilwra aelodaeth o baneli i adlewyrchu darpariaeth leol. Mae canllawiau GIG Lloegr ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnwys eu rolau a'u safonau gwasanaeth.¹³ Lle mae'r achos yn cynnwys aelod sy'n gwasanaethu'r llu arfog, mae'n bosib y gwahoddir cynrychiolydd priodol o'r gwasanaeth hwnnw sy'n gyfarwydd ag amgylchiadau'r unigolyn i fynychu.¹⁴
50. Mewn trefniadau dwy haen, rhaid i'r Swyddog Achos Channel sicrhau y cysylltir â'r arweinydd Prevent ar gyfer y dosbarth neu'r cyngor bwrdeistref, fel mater o drefn i ofyn am wybodaeth i lywio'r VAF. Dylid cynnwys cyngorau dosbarth neu fwrdeistref o fewn cytundebau rhannu gwybodaeth Channel i hwyluso'r cyfnewid gwybodaeth hwn. Mae hefyd yn arfer da i gadeirydd y cyngor sir gysylltu â chynrychiolwyr ar lefel cyngor dosbarth neu fwrdeistref lle mae'r unigolyn yn preswyllo i roi'r diweddaraf iddynt am atgyfeiriadau o fewn yr ardal, ac i wahodd y rhain i fynychu'r panel lle bo'n briodol.

¹³ <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2017/11/prevent-mental-health-guidance.pdf>

¹⁴ Byddai hyn yn amodol ar gael cydsyniad gan yr unigolyn sy'n derbyn cefnogaeth.

Adran 5:

Proses Channel

Adnabod unigolion sy'n agored i'r risg o radicaleiddio

51. Nid oes un ffordd o adnabod pwy sy'n debygol o fod yn agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae ffactorau a allai gyfrannu at rywun yn dod yn agored i gael eu dylanwadu yn cynnwys:

- pwysau gan deulu neu gymheiriaid
- dylanwad pobl eraill neu drwy'r rhyngwrwyd
- bwlio
- bod yn ddiodefwr neu gyflawnwr trosedd
- ymddygiad gwrthgymdeithasol
- tensiynau teuluol
- troseddau casineb
- diffyg hunanhyder neu hunaniaeth
- cwynion personol neu wleidyddol

52. Dylai'r holl Swyddogion Achos Channel ac awdurdodau lleol ddatblygu cysylltiadau effeithiol rhwng gwasanaethau, megis y sector addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, gwasanaethau plant a phobl ifanc, gwasanaethau rheoli troseddwyr a sefydliadau cymunedol credadwy, fel bod gwasanaethau mewn sefyllfa dda i adnabod ac atgyfeirio unigolion sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth y mae ganddynt gysylltiad â nhw.

53. Dylai Swyddogion Achos Lleol ac awdurdodau lleol ddefnyddio eu rhwydweithiau i danlinellu pwysigrwydd amddiffyn y rhai sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth ac i godi ymwybyddiaeth am y modd y gall Channel gynnig cefnogaeth. Ceir manylion ynglŷn â hyfforddiant i ymarferwyr yn Adran 7 y cyfarwyddyd hwn. Nid oes disgwyl i aelodau panel, neu weithwyr proffesiynol sy'n gwneud atgyfeiriad, fod yn arbenigwyr mewn terfysgaeth neu radicaleiddio, fodd bynnag, dylent fod yn ymarferwyr profiadol yn eu meysydd eu hunain.

54. Wrth asesu bregusrwydd a'r risg o unigolyn yn cael ei dynnu i mewn i drosedd derfysgol o unrhyw fath, dylid ystyried egwyddorion diogelu cyd-destunol, a'r ystod lawn o ddangosyddion perthnasol, ffactorau dylanwadol a pherthnasoedd a all gael effaith ar lefel o risg a bregusrwydd unigolyn ar unrhyw adeg. Gall hyn gynnwys cyswllt uniongyrchol ag eithafwyr, dylanwadau cymunedol neu deuluol neu ddylanwad rhwydweithiau ehangach, megis deunyddiau wedi'u cael ar lwyfannau ar-lein neu gyfryngau cymdeithasol. Dylai'r panel ystyried alinio a chydlynu â strwythurau cefnogi eraill, ar gael i fynd i'r afael

ag anghenion diogelu ehangach (e.e. Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) neu blentyn mewn angen).¹⁵ Ceir trosolwg o ddiogelu yn Adran 9 y cyfarwyddyd hwn.

Astudiaeth achos 3: diogelu cyd-destunol/amrywio'r pecyn cefnogaeth

Dechreuodd disgybl 15 oed dderbyn cefnogaeth drwy Channel yn dilyn atgyfeiriad Prevent gan eu hysgol.

Roedd y disgybl wedi datgelu gwneud cynlluniau i deithio i gyfandir Ewrop ar ôl datblygu obsesiwn â grŵp asgell dde wedi'i leoli yno.

Datgelodd trafodaethau pellach fod y disgybl yn cael ei ddylanwadu gan drydydd parti gyda chysylltiadau hysbys â'r grŵp hwn.

Roedd ymholiadau yn mynd rhagddynt gyda'r heddlu i adnabod y trydydd parti.

Roedd cefnogaeth gychwynnol yn canolbwyntio ar leihau'r perygl uniongyrchol o deithio gyda chyfarfod panel Channel brys wedi'i alw rhwng y cadeirydd Channel, gofal cymdeithasol a'r heddlu i ystyried y camau diogelu cyfreithiol angenrheidiol i wneud hyn.

Mae'r cynllun cefnogi canlyniadol yn cyfrif am newidiadau mewn bregusrwydd, gydag ymyriadau wedi'u llywio gan ymatebrwydd i'r gefnogaeth a ddarperir. Cysylltwyd â'r rhieni wrth gynllunio'r gefnogaeth ac fe'u diweddarwyd am y cynnydd.

Dangosyddion Risg/ Ffactorau Diogelu	Ymyrraeth	Darparwr	Pryd
Gorgysylltu â grŵp, achos neu syniadaeth	Cyfyngiadau teithio wedi'u cyflwyno	Gofal Cymdeithasol/ heddlu	Ar unwaith
Bod yn agored i drwytho	Cefnogaeth ideolegol wedi'i darparu	Darparwr Ymyriadau (IP) wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref	0-2 mis
Cryfhau ffactorau diogelu rhieni	Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r we wedi'i ddarparu i rieni	Help Cynnar	0-1 mis
Anniddigrwydd/ anghyfiawnder	Cyngor ar opsiynau Addysg Bellach	Connexions	2-3 mis
Anniddigrwydd/ anghyfiawnder	Cefnogaeth fugeiliol wedi'i darparu	Ysgol	2-8 mis
Bod yn agored i drwytho	Ailgychwynnwyd sesiynau IP am gyfnod byr i asesu bregusrwydd y disgybl a chydymffurfiaeth gudd bosibl ar ôl i ddylanwad y trydydd parti ailgychwyn	IP wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref	6-7 mis

¹⁵ Ymateb drwyartneriaeth yw Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.

Y cam atgyfeirio

55. Yn aml mae atgyfeiriadau Prevent yn debygol o gael eu gwneud yn gyntaf gan unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r rheiny sy'n ymddangos eu bod mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, fel rheol yn dilyn graddau o bwysu a mesur ar ran yr atgyfeiriwr. Dylai unigolion sy'n gwneud atgyfeiriad ddilyn y weithdrefn 'Sylwi, Gwirio, Rhannu' cyn gwneud atgyfeiriad i'r heddlu.¹⁶
56. Mae'r holl atgyfeiriadau Prevent yn cael eu blaenoriaethu yn y lle cyntaf gan swyddogion heddlu arbenigol a staff. Mae'r swyddogion hyn yn pennu a oes achos rhesymol i amau bod unigolyn yn agored i gael ei dynnu i mewn i unrhyw droseddau terfysgol, ac felly'n addas ar gyfer cefnogaeth drwy Prevent. Mae'r 'asesiad porth' hwn yn tynnu ar gronfeydd data ac adnoddau eraill yr heddlu i bennu'r lefel o fregusrwydd a pherygl sy'n gysylltiedig â'r unigolyn a atgyfeiriwyd, a ph'un a fydd yr atgyfeiriad/ achos yn symud ymlaen i (neu allan o) Prevent.
57. Ar ôl yr asesiad porth hwn, y prif lwybr i unigolion a ddynodir fel rhai sydd â bregusrwydd yn berthnasol i Prevent yw cefnogaeth drwy banel Channel amlasiantaethol dan arweiniad awdurdod lleol.
58. Ar ôl yr asesiad porth, mae unigolion y mae'r heddlu yn amau'n rhesymol eu bod yn peri perygl difrifol neu uniongyrchol o gyflawni trosedd derfysgol, yn annhebygol o gael eu hatgyfeirio am gefnogaeth drwy Channel. Yn dibynnu ar y math a lefel o risg terfysgaeth a nodwyd gan yr heddlu, mae'n bosib y mabwysiadir yr achosion hyn gan bartneriaeth dan arweiniad yr heddlu neu eu huwchgyfeirio at Pursue i'w rheoli.


59. Mae pob achos a fabwysiadir gan Channel yn cael eu hadolygu a'u hailasesu yn rheolaidd am unrhyw newidiadau i'r bregusrwydd a risgiau a nodwyd mewn perthynas â throsedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth. Os yw'r risg yn cynyddu, lle bo'n briodol, gall yr heddlu dynnu achos oddi wrth Channel a'i roi i bartneriaeth dan arweiniad yr heddlu neu ei uwchgyfeirio at Pursue.

Y cam sgrinio a chasglu gwybodaeth

60. Os bydd yr wybodaeth wreiddiol a dderbynnir drwy'r atgyfeiriad yn dangos nad oes bregusrwydd sy'n rhoi'r unigolyn mewn perygl o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth yna nid yw'r achos yn addas i Channel; bydd y Swyddog Achos Channel yn atgyfeirio'r unigolyn at wasanaethau cefnogi mwy addas. Rhaid cofnodi'r rhesymau am yr atgyfeiriad hwnnw a manylion unrhyw atgyfeirio wedyn yn briodol. Bydd hyn yn sicrhau mai dim ond yr atgyfeiriadau hynny lle mae bregusrwydd gwirioneddol fydd yn cael eu prosesu drwy Channel.

¹⁶ 'Sylwi, gwirio, rhannu' yw'r weithdrefn gychwynnol a ddilyni'r lle mae pryder y gall rhywun fod mewn perygl o radicaiddio. Ceir manylion yn hyfforddiant y Swyddfa Gartref y gellir cael mynediad ato yma: <https://www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/> Gall llwybrau atgyfeirio lleol gynnwys cyflwyno drwy fecanweithiau awdurdod lleol, fodd bynnag, bydd pob atgyfeiriad Prevent yn cael eu hanfon ymlaen at yr heddlu.

Diagram 1.0: Diagram o'r Llwybr



- 61.** Bydd pob atgyfeiriad Prevent yn cael eu blaenoriaethu yn gyntaf drwy asesiad porth o risg a bregusrwydd gan yr heddlu. Mae'r rheiny sy'n addas i'w hystyried ar gyfer Channel yn agored i asesiad bregusrwydd arall, mwy manwl dan arweiniad y Swyddog Achos Channel. Caiff yr asesiad bregusrwydd hwn ei lywio gan rannu gwybodaeth gyda phartneriaid Channel ehangach a rhaid ei gylchredeg i aelodau panel Channel cyn y cyfarfod. Fel rhan o'r asesiad mwy manwl hwn, dylai'r awdurdod lleol gasglu i ba raddau mae gwasanaethau eisoes yn ymwneud â'r unigolyn, yn cynnwys drwy deulu agos, a chysylltu â thimau perthnasol i sicrhau bod prosesau diogelu yn alinio â'r broses Channel lle bo'n briodol.
- 62.** Dylai'r asesiad porth bennu'r fforwm mwyaf addas ar gyfer trafod yr atgyfeiriad. Unwaith mae'r asesiad porth a'r gwaith casglu gwybodaeth amlasiantaethol wedi'u gwneud a thybir bod yr atgyfeiriad yn addas ar gyfer ystyriaeth gan Channel dan benderfyniad adran 36, dylid ei gofnodi ar system rheoli achosion gymeradwy'r Swyddfa Gartref ar gyfer cofnodi a rheoli achosion Channel. Dylai'r CTCO dderbyn ymatebion partneriaid i'r cais am wybodaeth, neu o leiaf gael ei gynnwys ynddynt. Rhaid cofnodi holl gofnodion cyfarfodydd Channel ar y system hon.¹⁷
- 63.** Lle gwneir atgyfeiriad Prevent, mae'n arfer da i'r heddlu neu'r Swyddog Achos Channel gysylltu â'r atgyfeiriwr lle mae'n briodol gwneud hynny. Gall hyn fod mewn achosion lle mae eglurder yn ofynnol ar agweddau o'r atgyfeiriad ac i roi gwybod am ganlyniad eu hatgyfeiriad neu dderbyn cyngor ar unrhyw ymgysylltiad parhaus â'r unigolyn dan sylw. Dylid rhoi sicrwydd y gellid ailgyfeirio lle mae pryderon yn parhau neu gynyddu.
- 64.** Dim ond os yw atgyfeiriad Prevent yn cael ei wneud drwy'r llwybr a fanylir yn niagram 1.0 y gellir ei ystyried.

- 65.** Rhaid i baneli Channel benderfynu a ydynt am fabwysiadu pob atgyfeiriad a gyflwynir i'w hystyried ai peidio. Gall hyn gynnwys mabwysiadu achosion tra gwneir cysylltiad i gael cydsyniad unigolyn am gefnogaeth neu lle ymgwymerir â rhagor o waith casglu gwybodaeth. Ni ddylai fod yna achosion lle nad oes unrhyw benderfyniad ar fabwysiadu achos; ni ddylid gohirio penderfyniadau, ac ni ddylai atgyfeiriadau gael eu dal yn ôl i'w 'monitro' gan baneli heb fabwysiadu.

Cydweithredu gan bartneriaid panel

- 66.** Gall partneriaid panel gael cais i roi gwybodaeth am unigolyn i'r Swyddog Achos Channel yn ystod y cam casglu gwybodaeth. Ystyrir ei bod yn arfer da i'r panel ddrafftio cytundeb rhannu gwybodaeth lleol er mwyn cyflymu'r broses o rannu gwybodaeth briodol. Mae templed ar gyfer ei addasu'n lleol ar gael ar y KnowledgeHub.¹⁸
- 67.** Mae Adran 38 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn gofyn i'r partneriaid a restrir yn Atodlen 7 (sy'n cael ei hailadrodd yn Atodiad B i'r cyfarwyddyd hwn) gydweithredu gyda'r panel a'r heddlu i roi unrhyw wybodaeth berthnasol fel y gall bennu a yw unigolyn yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Mae disgwyl i bartneriaid ymateb i'r Swyddog Achos Channel o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn unrhyw gais am wybodaeth.

¹⁷ Rhoddodd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019 ddarpariaeth estynedig i awdurdodau lleol sydd wedi'u dynodi gan y Swyddfa Gartref i wneud y penderfyniad dan adran 36. O fewn yr awdurdodau lleol dynodedig hynny, gwneir y penderfyniad hwn fel rheol gan oruchwyliwr y Swyddog Achos Channel.

¹⁸ <https://www.khub.net/group/prevent1>

Rhannu gwybodaeth

- 68.** Rhaid i bartneriaid panel weithredu ar y cyd gyda'r panel a'r heddlu wrth gyflawni eu swyddogaethau ar gyfer Channel. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu yn ymestyn cyn belled ag sy'n gydnaws â chyfrifoldebau cyfreithiol y partner o ran ei swyddogaethau. Nid yw cydymffurfio â'r ddyletswydd yn gofyn nac yn rhoi awdurdod i ddatgelu gwybodaeth a fyddai'n torri DPA 2018 neu'r GDPR. Mae'n bwysig yr ymgynghorir ag arweinwyr llywodraethu gwybodaeth sefydliadol lleol a thimau cyfreithiol ar egwyddorion rhannu gwybodaeth â'r panel.
- 69.** Nid yw'r GDPR, DPA 2018 a Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA 1998) yn rhwystrau i rannu gwybodaeth cyfiawn, ond yn hytrach maent yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion yn cael ei rhannu'n briodol.¹⁹ Dan y GDPR a DPA 2018, gellir rhannu gwybodaeth lle mae sail gyfreithiol dros wneud hynny, er enghraifft wrth gyflawni swyddogaeth statudol megis yr un a nodir yn adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch. Ceir rhestr lawn o seiliau cyfreithiol, fel y cyhoeddwyd ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), yn Atodiad A.
- 70.** Wrth ofyn am wybodaeth gan bartneriaid neu rannu gwybodaeth â nhw, dylid nodi ar ba sail y gwneir y cais yn glir. Wrth ymateb i gais i rannu gwybodaeth, dylai'r seiliau dros wneud hynny fod yn gyfreithlon ac yn unol â'r gyfraith (gweler Atodiad A). Dim ond at y diben y gofynnwyd amdani y dylid defnyddio gwybodaeth.
- 71.** Bydd gwybodaeth a rennir at ddiben Channel yn aml yn cynnwys data categori arbennig. Wrth rannu data categori arbennig, rhaid nodi sail gyfreithiol dan Erthygl 9, yn ychwanegol i'r sail gyfreithiol dan Erthygl 6 o'r GDPR. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â rhannu gwybodaeth, yn cynnwys pob sail gyfreithiol, sail gyfreithiol enghreifftiol a data categori arbennig yn Atodiad A.
- 72.** Mae cydsyniad i rannu gwybodaeth yn wahanol i gydsyniad i dderbyn gwybodaeth. Ni ddylid cyfuno'r ddau fater na'u trin fel un cydsyniad.
- 73.** Rhaid i awdurdodau sy'n prosesu fod yn ymwybodol o hawliau unigol gwrthrych y data. Er nad yw cydsyniad yn ofynnol o reidrwydd i rannu gwybodaeth, rhaid i'r rheolydd data gymryd camau i sicrhau y diwallir hawliau unigol y gwrthrych. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hawliau unigol ar wefan ICO a cheir rhagor o fanylion ym mharagraffau 118-123.²⁰
- 74.** Os oes gan bartner panel unrhyw bryderon am addasrwydd rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, dylai ymgynghori â'r Swyddog Achos Channel, cadeirydd y panel Channel o'r awdurdod lleol, cynghorwyr cyfreithiol a'u timau llywodraethu gwybodaeth eu hunain i sicrhau bod pawb yn fodlon bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gyfreithlon, cymesur ac angenrheidiol.
- 75.** Os yw partneriaid i'r panel wedi darparu gwybodaeth i'r panel Channel, mae'n debygol iawn y byddant yn cael eu gwahodd i'r cyfarfod i drafod yr achos unigol. Dylai partneriaid panel a wahoddir i gyfarfodydd fod yn bresennol i sicrhau bod pob agwedd ar fregusrwydd yr unigolyn yn cael eu trafod, a bod cyngor arbenigol yn cael ei geisio gan y rhai sy'n bresennol.

¹⁹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents>

²⁰ <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/individual-rights/>

Enghraifft ymarfer 5: rhannu gwybodaeth traws-sector

Atgyfeiriwyd gweithiwr gan gyflogwr, ar ôl i ddeunyddiau eithafwyr Mwslimaidd gael eu gadael ar lungopiwr gwaith ac roedd staff wedi adrodd eu hanoddefgarwch cynyddol tuag at gydweithwyr an-Fwslimaidd.

Yn dilyn yr atgyfeiriad Prevent, gofynnwyd am wybodaeth, a chafwyd yr ymatebion canlynol gan bartneriaid i'r panel:

- Help Cynnar: wedi derbyn cyngor ar gam-drin domestig a rhianta ond wedi datgysylltu oddi wrth wasanaethau
- iechyd meddwl: wedi derbyn gwasanaethau yn flaenorol ond yr achos wedi cau oherwydd absenoldeb
- tai: unigolyn yw'r unig denant ac mae'n byw gyda phriod a dau o blant
- tîm ymddygiad gwrthgymdeithasol: cymdogion yn adrodd ymwelwyr treisgar; tenant yn bygwth staff. Camau gorfodi tenantiaeth yn yr arfaeth ac mae'r unigolyn ar y gofrestr 'personau treisgar posib'
- heddlu lleol: wedi ymateb i adroddiadau o gam-drin domestig; euogfarn flaenorol am anhrefn dreisgar gyda defnydd o arf yn gysylltiedig â gweithgaredd grŵp o eithafwyr Mwslimaidd

Adnabu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth y panel Channel seiliau cyfreithiol gan ganiatáu cyfnewid gwybodaeth berthnasol a chymesur yn gyflym.

Datblygwyd darlun cynhwysfawr o amgylchiadau personol a theuluol. Rhoddwyd cyd-destun i ddatgysylltiad â gwasanaethau eu priod a gorfodaeth bosib.

Adnabu'r panel yr asiantaeth fwyaf priodol ar gyfer trafod Channel â'r unigolyn a cheisio cydsyniad i dderbyn cefnogaeth.

Ystyriwyd risg i'w priod, plant a staff yn ystod trafodaethau a chytunwyd ar gamau lliniaru. Ailgynigiwyd cefnogaeth i'r teulu.

Cofnodwyd gweithredoedd, rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau, cynnydd a chanlyniadau yn briodol o fewn y cofnodion Channel.

Datgelu a chyfrinachedd

- 76.** Rhaglen wirfoddol yw Channel, y mae unigolion yn cydsynio i dderbyn cefnogaeth i fynd i'r afael â'u bregusrwydd a lleihau'r risg iddynt eu hunain drwyddi. Ni ddylent, felly, fod yn agored i unrhyw oblygiadau negyddol o ganlyniad i'w hymwneud â Channel (oni bai fod troseddoldeb yn dod i'r amlwg). Lle mae atgyfeiriad Prevent yn cael ei fabwysiadu gan Channel, dylai ffeithiau a manylion yr ymyriadau hynny barhau'n gyfrinachol ac ni ddylid eu datgelu fel arfer y tu allan i'r partneriaid ynghlwm â'r broses Channel, cyn belled ag sy'n ymarferol bosib.
- 77.** Er bod Channel yn broses gyfrinachol a gwirfoddol, gall gwybodaeth a rennir at ddiben Channel fod yn agored i'w datgelu i drydydd parti pan mae'n gyfreithiol a chymesur i wneud hynny, e.e. i lys teulu.
- 78.** Gall gwybodaeth yn ymwneud â phhecyn cefnogaeth Channel unigolyn, er enghraifft cofnodion Channel neu adroddiadau IP, fod yn agored i'w datgelu lle mae fframwaith cyfreithiol yn mynnu neu alluogi'r datgeliad hwnnw. Gellir derbyn ceisiadau i ddatgelu dogfennau Channel gan sawl ffynhonnell, yn cynnwys:
- llysoedd (yn cynnwys llysoedd teulu a'r crwner, a thribiwnlysoedd)
 - Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu
 - Gwasanaeth Eryl y Goron
 - ceisiadau gwrthrych am wybodaeth
- 79.** Tra bydd dogfennau megis y VAF yn cael eu rheoli gan y sefydliad a'u hysgrifennodd, gall fod angen i aelodau o'r panel Channel sy'n derbyn y ddogfen hon ei datgelu os yw'n ofynnol. Gyda chytundeb yr awdurdod a'i hysgrifennodd ar gyngor gan dimau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth lleol y dylid datgelu dogfen.
- 80.** Lle derbynnir cais i ddatgelu gwybodaeth, dylid nodi diben y datgeliad a'i gofnodi ym mhob achos. Cyn y gwneir datgeliad, dylid ystyried y cais yn ofalus i sefydlu a yw'n briodol datgelu'r holl wybodaeth, neu ran o'r wybodaeth a geisir ym mhob amgylchiadau. Dylid gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch faint o wybodaeth i'w datgelu. Ar y cyd â thimau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth lleol, dylai'r cadeirydd ystyried pa wybodaeth fyddai'n gyfreithiol a phriodol i'w rhannu. Dylai fod yna sail gyfreithiol dros rannu'r wybodaeth a rhaid bod y weithred honno'n angenrheidiol a chymesur. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.
- 81.** Dylai'r partneriaid Channel sy'n bresennol ar ddechrau pob cyfarfod ddarllen y datganiad cyfrinachedd a'i arwyddo i sicrhau eu bod yn deall yr egwyddorion cyfrinachedd a datgelu hyn ac yn cytuno â nhw.

Fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn

82. Mae Channel yn asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn gan ddefnyddio VAF sy'n cael ei weithredu yn gyson a adeiladwyd o gwmpas y tri maen prawf:
- **ymgysylltiad** â grŵp, achos neu syniadaeth
 - **bwriad** i achosi niwed
 - **gallu** i achosi niwed²¹
83. Mae'r meini prawf yn cael eu hystyried ar wahân gan fod profiad wedi dangos ei bod yn bosibl ymgysylltu heb fwriadu achosi niwed a'i bod yn bosibl bwriadu i achosi niwed heb ymgysylltu i raddau helaeth iawn. Dangosodd profiad hefyd ei bod yn bosibl ymwrthod (stopio bwriadu achosi niwed) heb ddatgysylltu yn llwyr (parhau â chydymdeimlad at yr achos); ond bydd colli cydymdeimlad â'r achos (datgysylltu) yn ddiethriad yn arwain at ymwrthod (colli'r bwriad).
84. Nid oes un llwybr cyffredin at derfysgaeth ac nid oes proffil syml i'r rhai sy'n cymryd rhan. Oherwydd hynny, gall unrhyw ymdrech i greu 'proffil' fod yn gamarweiniol. Rhaid peidio â thybio y bydd y nodweddion a phrofiadau hyn o angenrheidrwydd yn arwain at weld unigolion yn mynd yn derfysgwyr, nac mai'r dangosyddion hyn yw'r unig ffynhonnell o wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud asesiad priodol o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn.

Cysylltiadau gyda grwpiau eithafol

85. Nid yw cysylltiad gyda sefydliadau nad ydynt wedi'u gwahardd, ar ei ben ei hun, yn ddigon o reswm i gyfiawnhau atgyfeirio at broses Channel.²² Os bydd gweithwyr proffesiynol ar lefel leol yn pennu bod rhywun sydd wedi'i ddenu at syniadaeth grwpiau o'r fath hefyd yn dangos dangosyddion ymddygiad ychwanegol sy'n awgrymu ei fod yn symud tuag at derfysgaeth yna byddai'n addas atgyfeirio. Presenoldeb dangosyddion ymddygiad ychwanegol fyddai'n llywio p'un a ddylid atgyfeirio a'i ystyried ar gyfer ei fabwysiadu gan Channel.
86. Mae cysylltu â grŵp gwaharddedig neu ei gefnogi yn drosedd. Gall fod yn addas mewn rhai achosion i unigolion y credir eu bod ar gyrion sefydliadau a waherddir gael eu hatgyfeirio at Prevent am gefnogaeth. Dylai gweithwyr proffesiynol ar lefel leol gysylltu â'r heddlu lle mae pryderon bod trosedd waharddedig wedi'i chyflawni. Lle mae'r pryderon hyn yn cael eu codi mewn trafodaethau panel Channel, rôl y CTCO yw eu huwchgysyfeirio.

²¹ Mae ein cyfeiriad at 'niwed' yn cynnwys niwed iddyn nhw eu hunain, eraill neu'r cyhoedd ehangach. Mae'n cynnwys symud tuag at droseddau yn gysylltiedig â therfysgaeth nad ydynt yn dreisgar (yn unol ag ehangder deddfwriaeth terfysgaeth y DU), yn ogystal â chynlluniau neu ymdrechion i gyflawni unrhyw weithredoedd perthnasol o drais.

²² Mae Adrannau 11-13 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn ei gwneud yn drosedd bod yn aelod o sefydliad gwaharddedig, ei gefnogi neu ddangos cefnogaeth iddo. Mae rhestr o grwpiau gwaharddedig yn: <https://www.gov.uk/government/publications/proscribed-terror-groups-or-organisations--2>

Trosglwyddo achosion Channel

- 87.** Lle mae achos wedi cael ei fabwysiadu gan banel Channel mewn un ardal, ac mae'r unigolyn yn adleoli i ardal arall, dylid trosglwyddo'r achos i banel Channel yr awdurdod lleol newydd, h.y. y panel sy'n derbyn. Dylid tybio y byddai'r achos yn cael ei fabwysiadu gan y panel sy'n derbyn.
- 88.** Dylai'r Swyddog Achos Channel yn yr ardal sy'n trosglwyddo ddiwygio'r system rheoli achosion i adlewyrchu'r trosglwyddiad, gan ganiatáu mynediad at wybodaeth am yr achos. Dylai hyn gyd-fynd â hysbysiad gan yr heddlu i heddlu'r ardal sy'n derbyn. Dylai'r cadeirydd wneud cais am fanylion cyswllt y cadeirydd Channel o fewn yr ardal awdurdod lleol sy'n derbyn gan y Swyddfa Gartref. Dylai'r cadeirydd Channel gwreiddiol, ar y cyd â'r Swyddog Achos Channel, hwyluso trafodaeth â'r cadeirydd Channel sy'n derbyn i ddarparu ychydig o gyd-destun a rhesymeg i'r achos a mynd ar ei drywydd yn ysgrifenedig. Dylid dilyn egwyddorion 'preswylfa arferol' lle ystyrir trosglwyddiadau achos. Yr awdurdod arweiniol ddylai fod yr awdurdod lle mae'r unigolyn yn preswyllo neu'n bresennol bob amser. Ceir manylion ynghylch yr awdurdod arweiniol ym mharagraff 30.
- 89.** Lle mae'r panel yn penderfynu bod cysylltu ag awdurdodau dramor yn ofynnol, bydd y trafodaethau hyn yn cael eu harwain gan yr heddlu.

Astudiaeth achos 4: trosglwyddo achos

Roedd unigolyn 19 oed wedi bod yn derbyn cefnogaeth Channel ers chwe mis, ar ôl cael ei dargedu gan grŵp asgell dde eithafol.

Derbyniodd yr unigolyn gefnogaeth gan IP a chan Connexions, gan sicrhau lleoliad gwaith gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog ac archwilio opsiynau cyflogaeth.

Ar ôl cael ei daflu allan o'r cartref teuluol dechreuodd syrffio sofffa ac yn y pen draw penderfynodd symud i leoliad gwahanol gyda'i bartner.

Gan ei fod yn parhau i fod yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth, trosglwyddwyd yr achos i'r panel Channel yn ei leoliad newydd.

Newidiwyd y manylion ar y system rheoli achosion ac anfonodd y cadeirydd Channel e-bost diogel at gadeirydd y panel sy'n derbyn gyda throsolwg o amgylchiadau'r unigolyn a'i gynllun cefnogi.

Ychwanegwyd yr achos at agenda'r cyfarfod nesaf a'i fabwysiadu wedi hynny.

Cwblhawyd adolygiad o'r VAF a'r cynllun cefnogi, ac amlygwyd tai a chyflogaeth fel meysydd a oedd yn mynnu sylw.

Cymorth wedi'i dargedu a rheoli troseddwr Channel

Carchardai

90. Gall Channel gael ei ddefnyddio pan fydd yn addas i roi cefnogaeth i unigolion sy'n agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth o ganlyniad i radicaleiddio ac sy'n treulio dedfrydau yng ngharchar ac sy'n cael eu hatgyfeirio fel rhan o brosesau rheoli risg mewnol. Gall hyn fod mewn achosion pan mae unigolion ar fin cael eu rhyddhau o'r carchar a bod angen trefnu rhyw fath o ymyrraeth neu gefnogaeth cyn iddynt gael eu rhyddhau neu ar ôl hynny i fynd i'r afael â bregusrwydd a nodwyd. Bydd yr heddlu a phrofiannaeth yn parhau i chwarae rôl wrth asesu risg, bregusrwydd a dylanwad ffynonellau radicaleiddio posib.
91. Rhaid i'r penderfyniad i atgyfeirio troseddwr at Prevent gael ei gytuno drwy ymgynghoriad agos gyda staff y Carchar a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol

92. Cedwir Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA) ar gyfer y rhai sy'n creu'r risg fwyaf o niwed yn eu cymuned leol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu rheoli yn MAPPA oherwydd natur eu troseddu. Mewn rhai achosion gall asiantaethau bennu bod unigolyn mor agored i ddylanwad fel y byddai'n well iddo gael ei reoli drwy broses MAPPA.

93. Pan fydd hyn yn wir, gall y panel diogelu'r cyhoedd amlasiantaethol, os bydd angen, geisio cyngor y Swyddog Achos Channel. Dylid nodi y bydd pob troseddwr a gafwyd yn euog dan y Ddeddf Terfysgaeth (TACT) yn cael eu rheoli drwy MAPPA.
94. Fodd bynnag, pan fydd troseddwr yn gymwys i MAPPA am droseddau eraill, ac yn cael ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA asiantaeth arferol, a'i fod yn cael ei ystyried yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth o ganlyniad i radicaleiddio, dylid atgyfeirio at Prevent.²³ Yna'r asiantaeth arweiniol ddylai gysylltu gyda'r panel Channel lleol i bennu sut y gall y risg gael ei rheoli orau.

Ymatal ac Ymddieithrio

95. Mae'r gangen Prevent o CONTEST 2018 yn cynnwys manylion cefnogaeth wedi'i thargedu ychwanegol drwy'r Rhaglen Ymatal ac Ymddieithrio (DDP), sy'n canolbwyntio ar adsefydlu'r rheiny sydd wedi bod yn rhan o derfysgaeth neu weithgaredd yn gysylltiedig â therfysgaeth a lleihau'r perygl y maent yn ei beri i'r Deyrnas Unedig. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth i unigolion sydd wedi cael eu heuogfarnu o drosedd TACT neu drosedd yn ymwneud â TACT, yn ogystal â'r rheiny sy'n destun Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth (TPIMs) a'r rheiny sydd wedi dychwelyd o barthau gwrthdaro ac yn destun Gorchmynion Gwahardd Dros Dro (TEOs). Ceir rhagor o wybodaeth am DPP ar wefan y Swyddfa Gartref.²⁴

²³ Mae rheolaeth asiantaeth arferol lefel 1 yn golygu bod y risgiau a berir gan y troseddwr yn gallu cael eu rheoli gan yr asiantaeth yn gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Ni olyga hyn na fydd asiantaethau eraill yn bresennol, dim ond na ystyrir ei bod yn angenrheidiol atgyfeirio'r achos i gyfarfod MAPPA lefel 2 neu 3.

²⁴ <https://homeofficemedia.blog.gov.uk/2019/11/05/fact-sheet-desistance-and-disengagement-programme/>

Partneriaethau dan arweiniad yr heddlu

96. Mae partneriaethau dan arweiniad yr heddlu yn ymdrin â'r gwaith o reoli unigolion, grwpiau neu sefydliadau nad ydynt yn addas ar gyfer Channel, ond sydd wedi nodi materion yn berthnasol i Prevent sy'n mynnu cefnogaeth neu gamau lliniaru.
97. Mae Channel yn dwyn ynghyd rhwydwaith ehangach o gefnogaeth ar gael i leihau pa mor agored yw unigolyn i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth neu unrhyw drosedd yn gysylltiedig â therfysgaeth. Mae pa mor agored yw unigolyn i derfysgaeth a'r risg o derfysgaeth ar gyfer yr achos yn cael eu hadolygu gan yr heddlu a gall yr achos gael ei dynnu oddi wrth Channel os yw'r risg yn cynyddu i lefel nad yw'r heddlu yn credu y gall y panel Channel ei rheoli'n ddiogel.

Ymchwiliadau'r heddlu

98. Gall amgylchiadau godi lle mae unigolyn sy'n derbyn cefnogaeth drwy Channel yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ar gyfer trosedd nad yw'n gysylltiedig â therfysgaeth. Yn yr achos hwn, nid yw'r unigolyn wedi'i wahardd rhag ceisio cefnogaeth drwy Channel. Gall Channel barhau i ddarparu cefnogaeth, gydag unrhyw wybodaeth a rennir rhwng partneriaid Channel yn cael ei defnyddio i asesu bregusrwydd, risg ac anghenion cefnogaeth yr unigolyn. Fodd bynnag, lle mae gwybodaeth sy'n awgrymu gweithgaredd troseddol yn cael ei chyfnewid, mae gan yr heddlu ddyletswydd i ymchwilio.

Profiannaeth a throseddwyr ifanc

99. Pan fydd troseddwyr yn cael eu goruchwyllo yn y gymuned gan ddarparwr gwasanaethau prawf neu droseddwyr ifanc, a'u bod mewn perygl o gael eu radicaleiddio a'u tynnu i mewn i derfysgaeth, gallant gael eu rheoli gan y gwasanaeth rheoli troseddwyr addas a Prevent.

Adran 6:

Y Panel Channel

Cyfarfodydd panel

- 100.** Dylid cynnal cyfarfodydd panel yn fisol lle mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i'r panel eu hystyried neu lle mae achos byw, er gall fod yna achosion lle mae angen cynnal cyfarfodydd yn fwy aml.²⁵ Fel gofyniad lleiaf, dylai bod yna drafodaeth a gofnodir rhwng y cadeirydd, partneriaid perthnasol a'r Swyddog Achos Channel i adolygu cynnydd a champau gweithredu. Mae'n arfer da trefnu cyfarfodydd 12 mis ymlaen llaw i gefnogi partneriaid i gynllunio, ac, yn absenoldeb achosion byw, i gwrdd o leiaf bob chwarter. Gellir defnyddio'r cyfarfodydd hyn i adolygu arfer, cynnal archwiliadau, datblygu neu fonitro cynlluniau gwella neu i gynllunio a darparu hyfforddiant i'r panel. Mae'n arfer da i baneli Channel drefnu diwrnod datblygu blynyddol i lywio cynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 101.** Dylid penderfynu ar gyfansoddiad y panel yn seiliedig ar natur yr achosion unigol a'r camau caeth i amser sy'n ofynnol. Dylai'r cadeirydd Channel sicrhau y rhoddir gwybod i'r Swyddog Achos Channel am unrhyw newidiadau i aelodaeth y panel.
- 102.** Lle mae mewnbwn partner yn ofynnol ac ni ellir sicrhau presenoldeb corfforol partner, mae gan y cadeirydd y disgresiwn i hwyluso mewnbwn rhithiol gan bartneriaid, drwy systemau megis fideo-gynadledda neu dele-gynadledda, er ni ddylid trin hyn fel y dull diofyn o gynnal cyfarfodydd panel. Bydd angen i'r cadeirydd fod yn fodlon bod cyfrinachedd ac uniondeb y cyfarfod yn cael eu cynnal a bod y cofnodion yn adlewyrchu cytundeb yr aelodau panel i'r datganiad cyfrinachedd, a ddylai gynnwys y rheiny sy'n cyfrannu eu mewnbwn yn rhithiol.
- 103.** Dylai VAF dienw gael ei gylchredeg yn llawn i aelodau panel sy'n berthnasol i'r achos gan y Swyddog Achos Channel cyn cyfarfodydd fel bod yr holl aelodau perthnasol o'r panel yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd. Bydd y Swyddog Achos Channel yn cyflwyno'r atgyfeiriad i'r panel Channel ar sail yr wybodaeth a gasglwyd gan y partneriaid ar y panel a chanlyniad yr asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn.

²⁵ Mae'r gofyniad hwn wedi'i seilio ar adolygiadau a gynhaliwyd i adnabod dysg genedlaethol yn dilyn digwyddiadau terfysgol.

- 104.** Dylai aelodau panel hefyd roi ystyriaeth ddyledus i'w Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dangos sensitifrwydd yn eu hystyriaethau. Rhaid i'r panel ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt yn llawn i wneud penderfyniad gwrthrychol am y gefnogaeth a ddarperir, heb wahaniaethu yn erbyn yr unigolyn ar sail eu nodweddion gwarchoddedig.²⁶ Rhaid i'r panel yn gyntaf benderfynu a ddylid mabwysiadu'r atgyfeiriad i'r panel. Bydd penderfyniad i fabwysiadu yn cael ei wneud oherwydd bod y panel yn cytuno bod yr unigolyn yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth ac y gallai cefnogaeth Channel leddfu hynny. Mae'r penderfyniad hwn yn aml yn wahanol i benderfyniadau ar natur y cynllun cefnogi; nid yw'r rhain bob amser yn digwydd yn ystod cyfarfod panel sengl. Dylid cadw cofnod archwiliadwy o benderfyniadau i alluogi sicrhau ansawdd: mae cofnodion cywir a chytunedig yn darparu cofnod pwysig o'r broses hon. Yn dilyn cau achos, dylid cadw cofnodion panel Channel yn unol â chyfnod cadw data cytunedig yr awdurdod lleol. Gellir dod o hyd i Hysbysiad Preifatrwydd Data Channel y Swyddfa Gartref ac amserlenni cadw ar wefan y Swyddfa Gartref.²⁷
- 105.** I helpu i strwythuro ymarfer effeithlon i baneli Channel, mae ystod o dempledi safonol ar gael i'w haddasu'n lleol os yw'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys y cylch gorchwyl, cytundebau rhannu gwybodaeth a ffurflenni cydsynio.
- 106.** Dylid ceisio consensws y panel ar bob penderfyniad. Lle na ellir sicrhau hyn, dylid ceisio barn mwyafrif y panel, gyda'r cadeirydd yn bwrw'r bleidlais. Dylid cyfathrebu trefniadau llywodraethu lleol, a ddylai gynnwys y broses ar gyfer uwchgyfeirio pryderon ynghylch ffurf neu swyddogaeth paneli Channel, yn glir i aelodau'r panel.

Cynlluniau cefnogi

- 107.** Ymdrinnir â phob achos ar wahân. Bydd pecyn yn cael ei ddatblygu i bobl yr ystyrir eu bod yn addas i gael cefnogaeth, yn ôl y bregusrwydd a ddynodwyd. Gan ddefnyddio'r asesiad pa mor agored i ddylanwad cychwynnol a'u harbenigedd proffesiynol, dylai'r panel ddatblygu pecyn i gefnogi anghenion yr unigolyn a defnyddio'r wybodaeth fel sail ar gyfer asesu a lliniaru unrhyw risg sy'n cael ei chreu i ddarparwyr cefnogaeth posibl. Rhaid ystyried y cyd-destun teuluol ehangach fel rhan o'r asesiad hwn, a dylai'r panel gytuno ar drefniadau ar gyfer diweddarau teuluoedd ynglŷn â chynnydd lle mae'n briodol gwneud hynny.
- 108.** Mae Adran 36(4) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i baneli:
- baratoi cynllun i unigolyn y mae'r panel yn ystyried ei fod yn addas i gael cynnig cefnogaeth i leihau pa mor agored ydyw o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth
 - gwneud trefniadau i gefnogaeth gael ei darparu fel y disgrifir yn y cynllun pan roddir cydsyniad
 - adolygu'r gefnogaeth a roddir
 - diwygio neu dynnu'r cynllun cefnogi yn ôl unrhyw bryd os yw'r panel yn ystyried bod hynny'n addas
 - cynnal rhagor o asesiadau, ar ôl cyfnodau y mae'r panel yn eu hystyried yn addas, ar ba mor agored yw unigolyn i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth pan fydd:
 - y cydsyniad angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth yn cael ei wrthod neu ei dynnu'n ôl
 - y panel wedi pennu y dylai'r gefnogaeth gael ei thynnu yn ôl
 - paratoi cynllun cefnogi dilynol os bydd hynny'n cael ei ystyried yn addas

²⁶ Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau cyhoeddus i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb cyfle a meithrin cysylltiadau da. Mae hyn yn berthnasol yn gyffredinol, ond hefyd i'r asesiad o angen a risg a wynebir.

²⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/channel-data-privacy-notice>

Risg

- 109.** Mae risg yn thema sy'n rhedeg drwy'r broses Channel gyfan - risg i'r unigolyn, risg i'r cyhoedd, a risg i bartneriaid neu sefydliadau sy'n rhoi cefnogaeth i'r unigolyn, gan gynnwys unrhyw ddarparwyr ymyriadau. Mae'r panel Channel yn ei gyfarwydd yn gyfrifol am fregusrwydd yn gysylltiedig â therfysgaeth achos, sy'n golygu darpariaeth ac adolygiad digonol o ymyriadau cefnogol o ran anghenion ac achosion cymhleth y pryder yn gysylltiedig â therfysgaeth. Mae partneriaid statudol yn gyfrifol am ddiogelu o ran bregusrwydd cynhenid a chyd-destunol unigolyn y gall eraill fanteisio arnynt, neu a all waethygu anghenion cymhleth unigolyn, i'r graddau y gall yr unigolyn hwn gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth yn gynyddol. Mae'r heddlu yn gyfrifol am adnabod a lliniaru risgiau uniongyrchol o unigolion yn symud tuag at unrhyw droseddau terfysgol, ac ymwrthod ag ymddygiadau troseddol/risg uchel o'r fath.
- 110.** Gall y gefnogaeth a gynnigir i rai unigolion gwmpasu nifer o asiantaethau a bydd pob asiantaeth yn berchen ar yr elfen o risg y maent yn gyfrifol am ymdrin â hi drwy'r cynllun cefnogi.
- 111.** Mae'r risg o ymwneud unigolyn â throedd derfysgol yn gorwedd gyda'r heddlu. Dyma'r perygl y mae'r unigolyn yn ei greu iddo ei hun a chymdeithas drwy ei ymwneud cynyddol neu weithredol posibl ag unrhyw droseddoldeb yn gysylltiedig â deddfwriaeth terfysgaeth. Yr heddlu yw'r asiantaeth fwyaf addas drwy gydol oes pob achos Channel unigol i asesu a rheoli'r risg hon.
- 112.** Mae'r risg yn ymwneud â pha mor agored yw'r unigolyn i derfysgaeth yn gorwedd gyda'r panel Channel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y risg a berir i'r unigolyn o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth neu o niwed diogelu ehangach yn cael ei thrin a'i lleihau.
- 113.** Wrth asesu pa mor agored yw'r unigolyn i derfysgaeth, dylid rhoi ystyriaeth i:
- y risg a berir i'r unigolyn o gael ei radicaleiddio a'i fanteisio arno
 - bregusrwydd ac anghenion ehangach yr unigolyn
- 114.** Ar y pwynt hwn dylai aelodau'r panel sy'n bresennol mewn cyfarfod asesu'r risg ar y cyd a phenderfynu a yw'r unigolyn:
- yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth ac, felly, yn addas ar gyfer Channel
 - yn un ddylai gael ei atgyfeirio at beirianwaith cefnogi gwahanol
 - yn un ddylai adael y broses.
- 115.** Mae disgwyliad clir bod achosion Channel yn parhau ar agor hyd nes un o'r canlynol:
- ystyrir gan y panel bod pa mor agored yw unigolyn i derfysgaeth wedi lleihau'n ddigonol i warantu gadael
 - mae'r risg o derfysgaeth wedi cynyddu a chaiff yr achos ei uwchgyfeirio i'r heddlu ei ystyried
- 116.** Os na cheir cydsyniad i dderbyn cefnogaeth yn y pen draw, neu tynnir cydsyniad yn ôl, bydd yr achos Channel yn cau.
- 117.** Dylai rhannu gwybodaeth hefyd amlygu unrhyw risgiau ehangach a berir, y mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt cyn yr ymgymerir ag unrhyw ymweliadau. Gallai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig iddo, recordio lle mae hanes o drais, ymddygiad bygythiol neu ddefnydd o arfau. Rhaid i bartneriad y panel Channel fodloni eu hunain fod eu prosesau eu hunain ar gyfer cynnal asesiadau risg i sicrhau diogelwch staff ac eraill ar waith ac yn cael eu glynu atynt wrth gyflawni eu dyletswydd Channel.

Enghraifft ymarfer 7: gwneud penderfyniadau archwiliadwy, yn seiliedig ar risg

Roedd achos wedi bod yn derbyn cefnogaeth drwy Channel ers tri mis ac roedd ganddo gynllun cefnogi yn ei le wedi'i alinio â'r bregusrwydd a nodwyd ar y VAF. Rhoddwyd diweddariadau ar gamau gweithredu ym mhob cyfarfod a chofnodwyd pob penderfyniad yn ymwneud â'r gefnogaeth yn gywir yn y cofnodion.

Adolygwyd y VAF a'r cynllun cefnogi ym mhob cyfarfod gan y Swyddog Achos Channel.

Pan ddangosodd yr unigolyn gysylltiadau sefydledig ag unigolion a oedd yn rhan o ymchwiliad parhaus gan yr heddlu, ystyriwyd bod y risg wedi cynyddu, a phenderfynodd yr heddlu gau'r achos Channel gan y byddai'n cael ei reoli o fewn y bartneriaeth dan arweiniad yr heddlu.

Roedd yr achos yn destun adolygiad 6 a 12 mis wedi'r achos gau.

Cydsyniad am gefnogaeth

- 118.** Gan fod y gefnogaeth a dderbynnir drwy Channel yn wirfoddol, mae adran 36(4)(b) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn gofyn i gydsyniad gael ei roi gan yr unigolyn, yn amodol ar ystyriaethau o ran gallu a fanylir isod. Rhaid i'r holl unigolion sy'n derbyn cefnogaeth drwy Channel fod yn ymwybodol eu bod yn derbyn hyn fel rhan o raglen i amddiffyn pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, beth yw nodau'r rhaglen, a beth i'w ddisgwyl.
- 119.** Dylai'r cydsyniad i dderbyn cefnogaeth fod ar ffurf cytundeb wedi'i arwyddo i gefnogi penderfyniadau archwiliadwy'r panel a'i sicrhau dim hwyrach na'r adeg y cynigir cefnogaeth. Wrth geisio cydsyniad, dylid rhoi ystyriaeth bob
- amser i ba weithiwr proffesiynol sydd fwyaf addas i wneud hynny. Dylai cydsyniad fod yn wybodus, pendant ac wedi'i roi'n rhydd, heb unrhyw orfodaeth neu bwysau. Dylai'r cynnig cefnogaeth drwy Channel gael ei egluro'n llawn a'i gefnogi gan wybodaeth ysgrifenedig sy'n manylu pa ddarpariaeth sydd ar gael a sut bydd eu data personol yn cael ei ddefnyddio i asesu bregusrwydd, risg a phennu'r pecyn cefnogi.
- 120.** Dylai'r ohebiaeth hon fod yn yr iaith briodol ac wedi'i hegluro mewn termau sy'n cyd-fynd ag anghenion unigol, i sicrhau bod nodau'r rhaglen wedi'u deall, a bod cydsyniad yn wybodus. Mae paragraff 124 yn rhoi rhagor o fanylion am allu i gydsynio. Pan na fydd rhywun am barhau yn y broses, gall fod yn addas i gau'r achos Channel ond cynnig cefnogaeth wahanol drwy gyfeirio'r atgyfeiriad at wasanaethau prif ffrwd eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol plant neu oedolion.
- 121.** Pan fydd cydsyniad i dderbyn cefnogaeth wedi'i wrthod neu ei dynnu'n ôl yn y lle cyntaf, mae adran 36 4(e)(i) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn gwneud darpariaethau i'r panel gynnal asesiadau pellach, fel yr ystyrir yn briodol.²⁸ Lle mae risg o derfysgaeth yn dal i fodoli, byddai hyn yn cael ei drosglwyddo i'r CTCO ar gyfer rheolaeth gan yr heddlu.
- 122.** Gellir caffael gwybodaeth a drafodir mewn panel Channel gan amrywiaeth o bartneriaid ond bydd yn cael ei rheoli a'i phrosesu gan yr awdurdod lleol fel yr asiantaeth arweiniol ar gyfer Channel. Mae hawliau data unigol yn berthnasol i unigolion a atgyfeirir at Channel, yn cynnwys, ymhlith eraill, yr hawl i gael gwybod bod eu data yn cael ei brosesu. Mae gan awdurdodau lleol felly gyfrifoldeb i roi gwybod i unigolyn bod ei ddata yn cael ei brosesu. Bydd yr hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o'r cydsyniad gwybodus sy'n ofynnol i dderbyn cefnogaeth drwy Channel fel yr amlinellir uchod.²⁹ Dylai'r Hysbysiad Gwybodaeth Diogelu Data ar gyfer yr awdurdod lleol gael ei ddiweddarau i adlewyrchu swyddogaethau

²⁸ Lle na cheir cydsyniad o fewn 3 mis, dylid cau'r achos.

²⁹ <https://ico.org.uk/your-data-matters/your-right-to-be-informed-if-your-personal-data-is-being-used/>

statudol Channel. Gellir dod o hyd i ffurflen gydsynio enghreifftiol sy'n ymgorffori'r hysbysiad hwn ar y KnowledgeHub.³⁰

- 123.** Mewn achosion, lle trafodir unigolyn ond ni ystyrir ei fod yn addas am gefnogaeth, ac ni fabwysiadir, ac ni chysylltir felly ag ef am gydsyniad, mae'r hawl i gael gwybod yn cael ei bodloni drwy Hysbysiad Gwybodaeth Diogelu Data'r Swyddfa Gartref, sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.³¹ Yn yr achosion hyn, nid oes gofyniad felly am unrhyw gyswllt i roi gwybod i'r unigolyn lle na fabwysiadir yr atgyfeiriad gan y panel. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno cymhwyso eithriad i hysbysu fesul achos. Dylai'r Hysbysiad Gwybodaeth Diogelu Data ar gyfer yr awdurdod lleol gael ei ddiweddarau i adlewyrchu swyddogaethau statudol Channel, ar y cyd â thimau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth lleol. Nid yw'r cyfrifoldeb i roi gwybod yn berthnasol i'r heddlu gwrthderfysgaeth, sy'n prosesu data dan Ran 3 o DPA 2018. Wrth roi gwybod i unigolion am brosesu data gan awdurdod lleol mewn perthynas â Channel, rhaid cyfeirio hefyd at system rheoli achosion y Swyddfa Gartref.³²

Gallu i roi cydsyniad – oedolion, plant a phobl ifanc

- 124.** Rhagdybir hawl a gallu unigolyn i wneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio arno bob amser. Lle cwestiynir gallu unigolyn i wneud penderfyniad penodol, mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu mesurau diogelu o fewn y fframwaith statudol i amddiffyn hawliau'r rheiny na all wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.³³ Lle gwneir penderfyniad 'er budd gorau' i gydsynio i gefnogaeth Channel ar ran oedolyn yr ystyrir nad oes ganddo'r gallu i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch y gefnogaeth honno, dylid cynnal asesiad i bennu gallu a'i allu i wneud y penderfyniad hwn yn unol â chanllawiau Deddf Gofal 2014.³⁴ Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan DHSC yn darparu rhagor o wybodaeth ar asesu gallu a gellir dod o hyd iddynt ar-lein.³⁵
- 125.** Lle mae cydsyniad i dderbyn cefnogaeth gan Channel yn cael ei geisio mewn perthynas ag unigolyn dan 18 oed, bydd cydsyniad y rhiant/gwarcheidwad yn cael ei sicrhau.

Pan na ellir cael cydsyniad rhieni

- 126.** Yn achos plentyn, efallai y bydd rhai amgylchiadau pan na fydd rhiant/gwarcheidwad yn rhoi caniatâd i'r plentyn gael cefnogaeth drwy Channel. Os credir bod y plentyn mewn risg o niwed sylweddol, boed hynny yn gorfforol, emosiynol, meddyliol, deallusol, cymdeithasol neu ymddygiadol, yna rhaid i wasanaethau cymdeithasol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol perthnasol fod â rhan yn y penderfyniadau a wneir am y plentyn. Gall amgylchiadau godi pan fydd y panel Channel a'r gwasanaethau cymdeithasol yn pennu bod y plentyn mewn angen.³⁶ Gellir

³⁰ <https://www.khub.net/group/prevent1>

³¹ <https://www.gov.uk/government/publications/channel-data-privacy-notice>

³² <https://www.gov.uk/government/publications/channel-data-privacy-notice/channel-data-privacy-information-notice>

³³ Mae canllawiau proffesiynol ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/mental-capacity-act-making-decisions>

³⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/care-act-statutory-guidance/care-and-support-statutory-guidance>

³⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/reference-guide-to-consent-for-examination-or-treatment-second-edition>

³⁶ Bydd asesiad o anghenion plentyn yn cael ei bennu yn defnyddio diffiniadau a geir yn adran 17 neu adran 47 o Ddeddf Plant 1989 ar gyfer Lloegr ac adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

gweld rhagor o wybodaeth am ddiogelu plant yn y cyfarwyddyd Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Plant (ar gyfer Lloegr),³⁷ a'r cyfarwyddyd Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (ar gyfer Cymru).³⁸

Cefnogaeth i ymdrin â'r duedd i fod yn agored i ddylanwad a ddynodwyd

- 127.** Mae cyfraniad y partneriaid panel cywir yn sicrhau bod y rhai sydd â risg yn cael mynediad at ystod eang o gefnogaeth yn amrywio o wasanaethau prif ffrwd, fel iechyd ac addysg, hyd at gyfarwyddyd arbenigol gan IP i gynyddu dealltwriaeth ddiwinyddol a/neu herio honiadau o syniadaeth dreisgar. Gall hefyd gynnwys gweithgareddau dargyfeirio ehangach fel cyrsiau hyfforddi addas. Dylai'r partneriaid sy'n cymryd rhan gael eu teilwra yn ôl natur agored i ddylanwad yr unigolyn sy'n cael cefnogaeth.
- 128.** Fel rhan o gytuno pecyn cyfan o gefnogaeth, rhaid i'r panel benderfynu sut i gysylltu'r unigolyn â'r darparwyr cefnogaeth. Dylai'r holl benderfyniadau gael eu dogfennu'n glir ac alinio â'r bregusrwydd a ddynodwyd.
- 129.** Bydd y math o weithgareddau fydd yn cael eu cynnwys mewn pecyn cefnogi yn dibynnu ar ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn ac adnoddau lleol. I ddarlunio hyn, gall gweithgaredd dargyfeiriol gyda lefel is o gefnogaeth fod yn ddigon i rywun sydd yng nghyfnod cynnar cael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Dylai'r gefnogaeth a gynigir alinio'n uniongyrchol â'r anghenion a risgiau a ddynodwyd o fewn yr asesiad bregusrwydd, a ddylai gynnwys ystyriaeth o anghenion diogelu trosiannol a chyd-destunol ehangach. Gellid ystyried y mathau canlynol o gefnogaeth yn addas:
- **Cefnogaeth ddiwinyddol/ideolegol** - sesiynau wedi'u strwythuro yn defnyddio IP wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref i ddeall a herio meddylfryd ideolegol, diwinyddol neu obsesiynol. Dylid ystyried defnyddio IP ym mhob achos
 - **Sgiliau Bywyd** – gweithio ar sgiliau bywyd neu sgiliau cymdeithasol yn gyffredinol, fel ymdrin â phwysau gan gymheiriaid
 - **Sesiynau rheoli dicter** – gwaith ffurfiol neu anffurfiol yn ymdrin â dicter
 - **Cyswllt gwybyddol/ymddygiadol** – therapïau ymddygiad gwybyddol a gwaith cyffredinol ar agweddau ac ymddygiad
 - **Diddordebau adeiladol** – gweithgareddau hamdden dan oruchwyliaeth neu a reolir
 - **Cyswllt sgiliau addysg** – gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar addysg neu hyfforddiant
 - **Cyswllt gyrfaedd** – gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar waith
 - **Cyswllt cefnogaeth deuluol** – gweithgareddau a fwriadwyd i gefnogi teulu a chysylltiadau personol, gan gynnwys rhaglenni rhianta ffurfiol
 - **Cyswllt ymwybyddiaeth iechyd** – gwaith wedi'i anelu at asesu neu ymdrin ag unrhyw broblemau corfforol neu iechyd meddwl
 - **Cyswllt cefnogaeth tai** – gweithgareddau a fwriadwyd i ymdrin â threfniadau byw, darpariaeth llety neu gymdogaeth
 - **Ymwybyddiaeth cyffuriau ac alcohol** – ymyraethau cam-drin sylweddau
 - **Mentora** – gweithio gyda model rôl sy'n oedolyn addas i roi cyfarwyddyd personol neu ofal bugeiliol

³⁷ <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

³⁸ <https://gov.wales/keeping-learners-safe>

- 130.** Mae'r panel ar y cyd yn gyfrifol am sicrhau bod y pecyn cyffredinol o gefnogaeth yn cael ei ddarparu, ond nid am reoli nac ariannu darparwyr y gefnogaeth. Pan fydd cefnogaeth yn cael ei ddarparu gan bartner panel, dylent fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel i roi diweddariad ar gynnydd ac maent yn gyfrifol am gyflenwi'r elfen honno o'r pecyn cefnogaeth cyffredinol; dylai'r cyllid ar gyfer unrhyw gefnogaeth a roddir gael ei dalu gan wasanaethau lleol presennol.
- 131.** Mae angen i ddarparwyr cefnogaeth i bobl mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth (yn cynnwys darparwyr nad ydynt yn cael eu henwi fel partneriaid i'r panel), fod yn gredadwy i'r unigolyn sy'n derbyn cefnogaeth a deall y gymuned leol. O ystyried eu rôl bwysig, rhaid sefydlu eu dibynadwyedd, eu haddasrwydd i weithio gyda phobl sydd mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, a'u hymrwymiad i werthoedd a rennir. Rhaid i gadeiryddion a'r heddlu fodloni eu hunain bod y darparwr cefnogaeth posibl yn addas, ac nad yw'n creu risg, cyn eu comisiynu. Dylai partneriaid gynnal eu diwydrwydd dyladwy eu hunain i sefydlu addasrwydd cyn penodi. Dylai unrhyw bryderon a godir gan aelodau'r panel gael eu trafod yn y panel.
- 133.** Os yw'r panel yn fodlon bod pa mor agored yw'r unigolyn i derfysgaeth wedi cael ei leihau yn llwyddiannus neu ei reoli, dylent argymhell bod yr achos yn gadael y broses. Dylai'r Swyddog Achos Channel lunio VAF cloi cyn gynted â phosibl yn nodi'r rheswm am argymhellion y panel. Bydd angen i'r argymhellion gael eu cymeradwyo gan gadeirydd y panel Channel a'r Swyddog Achos Channel.
- 134.** Os nad yw'r panel yn fodlon bod pa mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn wedi cael ei leihau i lefel dderbyniol, dylai'r achos gael ei ail ystyried. Dylid datblygu cynllun gweithredu newydd a threfnu cefnogaeth wahanol. Os yw'r risg o derfysgaeth wedi cynyddu, rhaid i'r Swyddog Achos Channel ystyried symud yr achos ymlaen drwy beirianweithiau presennol yr heddlu. Rhaid i'r panel benderfynu a yw'r achos yn addas ar gyfer Channel o hyd ai peidio. Mae'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn yn cofnodi newidiadau i risg a bregusrwydd, tra mae cofnodion y panel yn cofnodi penderfyniadau y cytunwyd arnynt sy'n alinio â'r asesiad hwn. Gyda'i gilydd, maent yn llywio proses gwneud penderfyniadau a rheoli risg y panel Channel a rhaid eu cadw ar system rheoli achosion gymeradwy'r Swyddfa Gartref er gwybodaeth yn y dyfodol.

Monitro cefnogaeth Channel

- 132.** Mae'r Swyddog Achos Channel yn gyfrifol am gysylltu yn gyson gyda'r darparwr(wyr) cefnogaeth, diweddaru'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn ac asesu cynnydd. Lle mae achos byw neu atgyfeiriadau a gyflwynir i'w hystyried, dylid cynnal panel Channel bob mis. Dylai'r Swyddog Achos Channel ddiweddau'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn bob tri mis o leiaf, i sicrhau bod y cynnydd sy'n digwydd wrth gefnogi'r unigolyn yn cael ei gofnodi. Dylid ail-asesu asesiadau o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn yn amlach i hysbysu cyfarfod allweddol o'r panel, lle mae'r gefnogaeth a ddarperir wedi cyrraedd carreg filltir benodol, neu lle mae newidiadau sylweddol i amgylchiadau neu lefelau o risg wedi bod.

Cael gafael ar gefnogaeth arbenigol

Darparwyr Ymyriadau (IPs)

- 135.** Arbenigwyr ideolegol a diwinyddol yw Darparwyr Ymyriadau (IPs). Maent yn brofiadol wrth asesu sbardunau ideolegol, yn meddu ar lefel uchel o ddealltwriaeth o ran naratif eithafwyr, ac mae ganddynt y gallu i'w brwydro. Maent yn derbyn hyfforddiant cynhwysfawr i gefnogi eu rolau drwy raglen Proffesiynoli IP. Mae IPs hefyd yn destun proses recriwtio drylwyr a rhaid iddynt dderbyn cymeradwyaeth Weinidogol i weithio ar y rhaglen.

- 136.** Pan fydd gan yr unigolyn angen cefnogaeth ddiwinyddol/ideolegol i fynd i'r afael â barn eithafol, neu'n meddu ar syniadaeth aneglur, gymysg neu ansefydlog, rhaid i ddarparwyr ymyraethau wedi'u cymeradwyo gan y Swyddfa Gartref gael eu comisiynu. Mae'r IP yn anelu at gynyddu dealltwriaeth ddiwinyddol a herio syniadau eithafol neu feddylfryd obsesiynol pan fyddant yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau terfysgaeth, neu i ddeall, fel arall, graddfa'r pryderon yn ymwneud â syniadaeth. Rhaid ystyried defnyddio IP y Swyddfa Gartref bob amser ar gyfer achosion byw ac adolygu hyn lle na chomisiynir un. Rhaid cadw cofnod yn manylu penderfyniad y panel a'i sail. Lle mae'r panel Channel yn adnabod y byddai'r unigolyn yn elwa o IP, bydd y Swyddog Achos Channel yn gyfrifol am drefnu darpariaeth y gwasanaeth hwnnw.
- 137.** Lle mae IP y Swyddfa Gartref wedi cael ei gomisiynu, bydd adroddiadau ysgrifenedig ar gynydd yn cael eu paratoi a'u dychwelyd i'r Swyddog Achos Channel o fewn pum diwrnod gwaith i gwblhau'r sesiwn ymyrraeth. Bydd y Swyddog Achos Channel yn defnyddio'r adroddiad hwn i ddarparu diweddariad ar lafar i'r panel Channel a diweddarau'r VAF pan fo angen. Dylid sicrhau bod adroddiadau IP ar gael i gadeirydd y panel Channel. Er nad oes angen mynediad rheolaidd at adroddiadau IP ar aelodau panel sefydlog, gallant edrych arnynt ar gais drwy'r Swyddog Achos Channel. Cynhyrchir yr adroddiadau IP at y prif ddiben o hysbysu'r paneli Channel o'r risgiau o radicaleiddio a bregusrwydd sy'n bresennol. Felly, ni ddylid eu rhannu y tu hwnt i'r aelodau panel sefydlog. Ceir rhagor o fanylion am ddatgelu ym mharagraffu 76-81.
- 138.** Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i ddarparwyr ymyrraeth gael eu cymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Gyda'r holl wasanaethau eraill a ddarperir fel rhan o'r pecyn cefnogi, rhaid i'r cadeirydd a'r heddlu fod yn fodlon bod y darparwyr hyn yn addas i ddarparu'r ymyriadau hyn. Nid oes gan unigolion a sefydliadau sy'n dal barn eithafol neu sy'n cefnogi gweithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth o unrhyw fath, yn y wlad hon neu dramor, le wrth ddarparu cefnogaeth drwy Channel ac ni fyddant yn cael cyllid cyhoeddus i wneud hynny. Mae hyn yn wir beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid: llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, plismona neu gyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus. Pan fydd y gefnogaeth yn cael ei darparu drwy ddarparwyr ymyriadau cymeradwy'r Swyddfa Gartref, y Swyddog Achos Channel sy'n gyfrifol am gysylltu gyda'r darparwr cefnogaeth ac am ariannu a monitro cyflawni'r elfen honno o'r pecyn cefnogaeth.

Cronfa Cefnogaeth Ymyrraeth

- 139.** Mae'r rhan fwyaf o'r gefnogaeth ar gael drwy Channel yn cael ei hariannu gan y cyrff statudol sy'n ei darparu. Y prif eithriad i hyn yw'r mentora ideolegol a diwinyddol drwy IPs, a ariennir gan y Swyddfa Gartref drwy'r Swyddog Achos Channel.
- 140.** Mae gan y Swyddfa Gartref gyllid ychwanegol drwy fodd y Gronfa Cefnogaeth Ymyrraeth, y gellir ei defnyddio mewn achosion lle nad yw darpariaeth gan bartneriaid statudol, IPs neu sefydliadau'r trydydd sector yn briodol i leihau'r bregusrwydd Channel a nodwyd. Mae'r cronfeydd hyn wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio'n hyblyg ar gyfer gweithgaredd neu gostau sy'n digwydd ochr yn ochr ag ymyriadau Channel eraill a dylid eu cysylltu â bregusrwydd a nodwyd. Rhaid i'r Swyddfa Gartref fod wedi cymeradwyo defnyddio'r cronfeydd hyn ymlaen llaw i gynnig cefnogaeth nad yw'n ddiwinyddol/ideolegol, hyfforddiant neu bryniannau unwaith i gefnogi effeithiolrwydd ymyriad. Bydd gan y Swyddog Achos Channel fanylion ynglŷn â chymhwysra a sut y gellir cael mynediad at y gronfa hon.

Hybiau cefnogaeth i bobl sy'n agored i ddylanwad

- 141.** Mae hybiau cefnogaeth i bobl sy'n agored i ddylanwad nawr ar waith i gefnogi'r CTCOs. Mae'r hybiau yn defnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar fformiwleiddio i flaenoriaethu atgyfeiriadau ar y cyd (yr heddlu ac iechyd) i raddio'r pryder a pha mor frys yw'r achos yn seiliedig ar yr wybodaeth atgyfeirio, a chadarnhau a yw'r unigolion yn hysbys i wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r Hyb yn darparu asesiad cynnar o anghenion iechyd meddwl a seicolegol unigolyn, a all effeithio ar lefelau o risg, llywio'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn a chynorthwyo gyda datblygu cynlluniau cefnogi Channel. Ceir mynediad at wasanaethau'r hyb cefnogaeth i bobl sy'n agored i ddylanwad drwy'r CTCO.

Gorfodi mewnfudo

- 142.** Mae cyngor a chefnogaeth arbenigol ynghylch mewnfudo ar gael i baneli Channel ar gyfer ymdrin ag ymholiadau, caffael gwybodaeth a chyingor, a lle bo'n briodol, ceisio cynrychiolaeth mewnfudo ar banel Channel. Bydd paneli Channel yn cael gwybod am drefniadau ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Atgyfeirio at fathau eraill o gefnogaeth

- 143.** Weithiau ni fydd rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid yn datgelu unrhyw dystiolaeth bod yr unigolyn mewn risg o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Gall ddynodi bregusrwydd personol arall, y mae angen ymdrin ag ef, fel cam-ddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl. Dan adran 36(6) o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch, pan fydd yn cael ei bennu nad yw cefnogaeth drwy Channel yn addas, rhaid i'r panel ystyried a ddylai unigolyn gael ei atgyfeirio at gefnogaeth gan ddarparwyr iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol, ac os felly, gwneud trefniadau fel y mae'r panel yn ystyried y mae hynny'n angenrheidiol.

Mae'n arfer da i gadeirydd y panel Channel ystyried gwahodd y partneriaid hyn i gyfarfodydd y panel. Ar ôl i benderfyniad am reoli'r achos gael ei wneud gan y panel, dylai cadeirydd y panel Channel gadarnhau'r argymhelliad a sicrhau bod y penderfyniad yn cael ei gofnodi yn briodol, a bod trefniadau yn cael eu gwneud i atgyfeirio'r unigolyn.

Adolygu Achosion Channel

- 144.** Rhaid i'r holl achosion a fabwysiadir gan banel Channel gael eu hadolygu gan y panel 6 mis i 12 mis ar ôl i'r achos gau. Pan gaiff yr achos ei gau, cyfrifoldeb y Swyddog Achos Channel yw cofnodi'n gywir ddiwedd yr achos ar y gronfa ddata rheoli achosion i sicrhau bod sbardun ar gyfer adolygiad yn cael ei wneud ar yr adeg briodol. Rhaid cynnal y broses adolygu hon ar gyfer pob atgyfeiriad Prevent a fabwysiadir gan y panel. Mae hyn yn cynnwys yr achosion Channel hynny a fabwysiadir ond sydd yn cael eu hatgyfeirio at rywle arall wedi hynny neu'n cael cynnig cefnogaeth dan Channel. Dylai'r broses adolygu gael ei llywio gan wybodaeth berthnasol gan bartneriaid Channel i'r Swyddog Achos Channel. Dylid cyflwyno gwybodaeth o fewn pum diwrnod gwaith i'r cais yn cael ei wneud a dylai gynnwys gwiriadau'r heddlu, cyfraniad gwasanaeth perthnasol, newid i amgylchiadau, cyfraniad presennol gofal cymdeithasol, unrhyw bryderon ers i'r achos gau a chyswllt â'r atgyfeiriwr cychwynnol.
- 145.** Lle mae gwybodaeth newydd a all gael effaith ar risg yn dod i'r amlwg ynghylch achos sydd wedi cau ond yn disgwyl adolygiad 6/12 mis yn ddiweddarach, bydd y cadeirydd Channel yn cael gwybod a'r achos yn cael ei ail-asesu gan yr heddlu.

Adolygiadau gadael

146. Dylai paneli ymdrechu i wella eu hymarfer ac effeithiolrwydd wrth leihau pa mor agored yw unigolyn i derfysgaeth a theilwra cynlluniau cefnogi i anghenion a nodwyd yn y VAF. I alluogi paneli i gael dealltwriaeth well o'u hymarfer, dylid rhoi ystyriaeth i gofnodi profiad unigolion sy'n gadael y broses Channel y gellid ei ddefnyddio i amlygu arferion da neu feysydd y mae angen eu gwella.

Rhannu arferion da

147. Gall awdurdodau lleol a'r heddlu ei gweld yn ddefnyddiol ffurfio rhwydweithiau Cadeiryddion Channel rhanbarthol i hwyluso rhannu arferion da wrth redeg paneli Channel. Dylai'r rhwydweithiau hyn ddod ynghyd i rannu arferion gorau, trafod astudiaethau achos a darparu cefnogaeth a chyingor i'w gilydd. Gall hyn yn fod yn adnodd defnyddiol i'r ardaloedd awdurdod lleol hynny sydd ag ychydig iawn o achosion Channel i ddysgu gan ardaloedd mwy profiadol, neu i gadeiryddion Channel arsylwi ar arferion. Bydd cadeiryddion paneli Channel hefyd yn cael cyfle i fynychu fforymau cenedlaethol cyson i rannu arferion da yn fwy eang.

Enghraifft ymarfer 8: rhannu arferion da

Lle mae rhwydweithiau cadeiryddion Channel wedi ffurfio, fel rheol ar sail rhanbarth Gwrthderfysgaeth yr Heddlu, maent wedi gweld gwerth yn dod ynghyd i rannu arferion a dysg, darparu cefnogaeth i'w gilydd, a chydlynu hyfforddiant.

Mae'r rhwydweithiau hyn yn darparu llwyfan gwych i adolygu achosion dienw, rhannu arferion da a deall ymarfer aneffeithiol ar draws ardaloedd awdurdod lleol.

Adran 7:

Hyfforddiant

- 148.** Mae cyflawni Prevent yn llwyddiannus yn dibynnu ar ennyn ymlyniad partneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar draws sectorau niferus gan gynnwys y sector cymunedol a gwirfoddol. Dynodwyd staff rheng flaen y sector cyhoeddus fel grŵp allweddol a all wneud cyfraniad pwysig wrth adnabod ac atgyfeirio unigolion a all fod yn agored i gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth o ganlyniad i radicaleiddio.
- 149.** Ochr yn ochr â hyfforddiant penodol i sector, dylai aelodau'r panel a phartneriaid gwblhau hyfforddiant e-ddysgu Prevent y Swyddfa Gartref:
- Ymwybyddiaeth Prevent – mae'r modiwl hwn yn rhoi cyflwyniad i Prevent ac yn egluro sut mae'n anelu at ddiogelu pobl fregus rhag cael eu radicaleiddio i gefnogi terfysgaeth neu ddod yn derfysgwyr eu hunain:
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk
 - Atgyfeiriadau Prevent - mae'r modiwl hwn wedi'i anelu at staff a all sylwi ar arwyddion o fod yn agored i gael eu radicaleiddio. Mae wedi'i ddylunio i roi'r hyder a'r gallu i staff fynegi eu pryder pan fydd rhywun mewn perygl:
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/preventreferrals
 - Ymwybyddiaeth Channel - mae'r modiwl hwn wedi'i anelu at gadeiryddion panel Channel, aelodau panel, a phartneriaid y gofynnir iddynt gyfrannu at gyfarfod panel, o bosib. Mae'n rhoi cyflwyniad i Channel, sut mae'n gweithio, a sut mae trefnu panel. Mae hefyd yn ymdrin â rhannu gwybodaeth:
www.elearning.prevent.homeoffice.gov.uk/channelawareness
- 150.** Yn ychwanegol i'r eDdysgu, fel cyflwyniad i Prevent, mae'n bosib y bydd sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gael. Byddai'r sesiwn hon yn cael ei threfnu drwy bwynt cyswllt Prevent yr awdurdod lleol ac mae wedi'i dylunio i helpu mynychwyr i ddeall beth all wneud unigolion yn agored i gael eu radicaleiddio.

- 151.** Mae'r Swyddfa Gartref wedi comisiynu ystod o hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu anghenion cadeiryddion Channel, is-gadeiryddion ac aelodau panel wrth gyflawni'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddwyd hwn a deall y risg genedlaethol a'r darlun o ran y bygythiad. Bydd gwybodaeth o ran yr hyfforddiant sydd ar gael yn cael ei hanfon yn uniongyrchol at gadeiryddion Channel a Swyddogion Achos Channel a gellir ei chael gan y Swyddfa Gartref.

Hyfforddiant lleol arall

- 152.** Gall hyfforddiant arall fod ar gael o fewn yr awdurdodau lleol neu ranbarthau sy'n darparu ar gyfer anghenion penodol y sector. Dylid ceisio eglurhad ar hyn gan bwyntiau cyswllt Prevent yr awdurdod lleol yn y lle cyntaf, neu drwy sefydliadau unigol. Ni ddisgwylir i aelodau panel na phartneriaid panel ddod yn arbenigwyr wrth weithredu yn erbyn radicaleiddio sy'n tynnu pobl i mewn i derfysgaeth. Ond, dylai pawb fod wedi dilyn yr hyfforddiant perthnasol a nodir uchod i sicrhau eu bod yn deall Prevent, Channel, y broses radicaleiddio a sut i ymyrryd i atal rhywun rhag cael ei dynnu i mewn i derfysgaeth. Gall y Swyddfa Gartref gomisiynu hyfforddiant ychwanegol i ddiwallu anghenion paneli Channel yn genedlaethol. Cysylltu â Swyddogion Achos Channel ynghylch yr hyfforddiant Channel sydd ar gael.

Adran 8:

Ceisiadau am wybodaeth

153. Wrth ystyried ceisiadau am wybodaeth, mae'n bwysig yr ymgynghorir ag arweinwyr llywodraethu gwybodaeth sefydliadol lleol a thimau cyfreithiol a'u bod yn fodlon bod cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a pholisi sefydliadol.

Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth

154. Mae'r holl wybodaeth a gofnodwyd a gedwir gan awdurdod cyhoeddus yn cael ei gynnwys gan yr hawl i wybodaeth dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (Deddf FOI). Yn y Ddeddf honno, mae rhagdybiaeth o blaid datgelu i gryfhau bod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus a thrwy hynny alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddeall penderfyniadau awdurdodau cyhoeddus yn well, a sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir gan y sector cyhoeddus yn cael eu gweld i fod yn cael eu cyflawni yn effeithlon a phriodol. Rydym, cyn belled ag sy'n bosibl, am fod yn agored a thryloyw am y broses Channel.

155. Mae'n arfer da ystyried goblygiadau rhyddhau gwybodaeth am drydydd partiön wrth gydymffurfio â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.³⁹ Yng nghyd-destun Channel, gall trydydd partiön gynnwys partneriaid cyflawni

lleol a chenedlaethol. Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn hwyluso'r ffordd i awdurdodau cyhoeddus ystyried buddiannau trydydd partiön a rhanddeiliaid y gall unrhyw benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth effeithio arnynt drwy osod safonau ar gyfer ymgynghori. Gall yr holl bartneriaid awdurdod cyhoeddus sy'n ymwneud â Channel dderbyn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Os gwneir cais Rhyddid Gwybodaeth bydd angen i'r holl wybodaeth gael ei hasesu mewn cymhariaeth â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth i weld a ellir ei datgelu neu beidio. Rhaid i bob cais am ryddhau gwybodaeth a gedwir gael ei asesu fesul achos.

156. Er mwyn cael dull cyson wrth ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n berthnasol i baneli Channel ac asesiadau o unigolion, ac i ddiogelu trydydd partiön, dylai'r holl bartneriaid lleol sy'n derbyn cais rhyddid gwybodaeth o'r fath ei ddwyn i sylw eu panel lleol. Dylai'r cadeirydd hysbysu'r Swyddog Achos Channel a'r Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth yn y Swyddfa Gartref, a fydd yn cynghori os bydd angen ymgynghori ymhellach, er enghraifft gydag adrannau eraill o'r llywodraeth ganolog.

³⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/freedom-of-information-code-of-practice>

Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth

- 157.** Dan Adran 45 o Ddeddf Diogelu Data 2018, gall unigolion hefyd wneud cais gwrthrych am wybodaeth (SAR) i weld data a ddelir amdanynt, neu blant y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant amdanynt. Gall yr unigolyn ofyn am wybodaeth am unrhyw gofnodion a ddelir amdano. Gall unrhyw sefydliad sy'n cadw data personol fod yn destun i'r ceisiadau hyn. Disgrifir yr hawl i wneud cais gwrthrych am wybodaeth yn Erthygl 15 o'r GDPR, Hawliau Mynediad gan wrthrych y data.⁴⁰ Gellir dod hyd i eithriadau i'r hawliau hyn yn DPA 2018, Atodlen 2, Rhan 4.
- 158.** Mae nifer cyfyngedig o eithriadau, ac nid oes rhaid rhyddhau'r holl wybodaeth bersonol ym mhob amgylchiad. Rhestrir yr eithriadau i'r hawliau hyn yn DPA 2018, Atodlen 2, Rhan 4.⁴¹
- 159.** Yn yr un modd â cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, er mwyn cael cysondeb yn yr ymatebion, dylai unrhyw geisiadau gwrthrych am wybodaeth gael eu dwyn i sylw cadeirydd y panel Channel.

Ymholiadau

- 160.** Sylwer bod ymholiadau cyfryngol cenedlaethol, rhyngwladol ac arbenigol am Channel yn cael eu rheoli gan Swyddfa'r Wasg y Swyddfa Gartref a dylid eu hatgyfeirio yn uniongyrchol ar y rhif canlynol:

Swyddfa'r Wasg y Swyddfa Gartref
020 7035 3535

- 161.** Mae'n help hefyd os gallwch roi gwybod i Swyddfa'r Wasg y Swyddfa Gartref, yn gynnar, am unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau lleol a gewch.

⁴⁰ <https://gdpr-info.eu/art-15-gdpr/>

⁴¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/schedule/2/part/4/enacted>

Adran 9:

Diogelu

- 162.** Er nad oes yna drothwyon ar gyfer gwneud atgyfeiriad Prevent, bydd achlysuron lle bydd asesiad a chefnogaeth a ddarperir drwy Channel i atal unigolion mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i derfysgaeth yn rhedeg ochr yn ochr â phrosesau diogelu. Ceir trosolwg cryno o'r fframweithiau diogelu i oedolion a phlant yma er gwybodaeth.
- 163.** Mae diogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb. Mae gan bartneriaid diogelu, fel y diffinnir dan Ddeddf Plant 2004 (a ddiwygiwyd gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol, 2017), ddyletswydd statudol i weithio gydag asiantaethau perthnasol o fewn eu hardal i ddiogelu ac amddiffyn plant. Partner diogelu mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol yn Lloegr yw:
- (a) yr awdurdod lleol (b) grŵp comisiynu clinigol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn disgyn o fewn yr ardal awdurdod lleol (c) prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn disgyn o fewn yr awdurdod lleol. Mae gan y tri phartner diogelu hyn gyfrifoldeb cydradd dros gyflawni'r rôl a dewis yr asiantaethau perthnasol y byddant yn gweithio â nhw i ddiogelu ac amddiffyn plant ym mhob ardal, a chyhoeddi eu trefniadau lleol.
- 164.** Mae'r cyfarwyddyd statudol Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Plant 2018, yn nodi'r gofynion cyfreithiol a'r disgwyliadau ar weithio rhyngasiantaethol i ddiogelu a hybu lles plant yn Lloegr.⁴² Yng Nghymru dylid cyfeirio at y cyfarwyddyd Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae'n cynnwys cyngor ar radialeiddio.⁴³
- 165.** Mae diogelu oedolion hefyd yn rôl allweddol i awdurdodau lleol. Dan Ddeddf Gofal 2014, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael Byrddau Diogelu Oedolion yn eu hardal. Gall y byrddau hyn roi arweiniad strategol i waith yr awdurdod lleol, ac asiantaethau partner, ar ddatblygu polisi ac arferion yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl. Mae'r cyfarwyddyd ar ddiogelu oedolion, yn berthnasol i Loegr yn y cyd-destun hwn.

⁴² <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

⁴³ <https://gov.wales/keeping-learners-safe>

- 166.** Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i roi adroddiad am achosion a amheuir o oedolion sydd â risg a dyletswydd sy'n cyd-fynd â hynny i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau a oes risg o niwed diogelu i'r oedolion, ac i bennu a oes angen cymryd unrhyw gamau i ymateb i hynny. Goruchwylir darpariaeth gan chwe Bwrdd Diogelu Plant a chwe Bwrdd Diogelu Oedolion yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 167.** Mae'n hanfodol i aelodau panel Channel, partneriaid i baneli lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Tra bod y darpariaethau Channel ym Mhennod 2 o Ran 5 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch yn gamau gwrthderfysgaeth (gan mai eu nod eithaf yw atal terfysgaeth), gall y ffordd y bydd Channel yn cael ei gyflawni yn aml orgyffwrdd â gweithredu'r ddyletswydd ddiogelu ehangach, yn arbennig pan fydd bregusrwydd wedi'i nodi sy'n gofyn am ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, neu pan fydd yr unigolyn eisoes yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.
- 168.** Mae'n holl bwysig i atgyfeiriadau Prevent gael eu hystyried gan yr awdurdod lleol a phartneriaid y paneli ochr yn ochr â'u gwaith i ddiogelu unigolion agored i ddylanwad. Dylai cysylltiadau allweddol gael eu sefydlu gyda gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid eraill y panel i sicrhau bod unigolyn yn cael y gefnogaeth fwyaf addas sydd ar gael. Lle mae plentyn neu oedolyn yn derbyn cefnogaeth gofal cymdeithasol, yn ogystal â chefnogaeth drwy Channel, dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol hwnnw fod yn bresennol ar y panel, a chyfrannu at y penderfyniadau am y plentyn. Gall rhaglen Channel redeg law yn llaw â chyfarfodydd diogelu eraill lle mae trothwyon diogelu wedi'u bodloni, ond ni all y rhain ei disodli.
- 169.** Lle sbardunir Adolygiadau Achos Difrifol, Adolygiadau Diogelu Oedolyn neu Adolygiadau Dynladdiad Domestig o ganlyniad i ddigwyddiad difrifol neu farwolaeth yn cynnwys unigolyn a gefnogir drwy Channel, disgwylir y ceisir mewnbwn gan y cadeirydd Channel i gefnogi'r gwaith o adnabod gwelliannau i ymarfer a dysgu a rennir. Yn yr achosion hyn, dylid hysbysu'r Swyddfa Gartref. Dylid anfon canfyddiadau adroddiad yn manylu argymhellion ac unrhyw ddysg a nodwyd hefyd.

Adran 10:

Atodiadau

ATODIAD A

Rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid

1. Y GDPR⁴⁴ a DPA 2018⁴⁵ yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n rheoli prosesu data yn ymwneud ag unigolion.
2. Gellir dod hyd i ganllaw'r ICO i'r GPDR ar wefan ICO.⁴⁶ Mae'r GDPR yn ddeddfwriaeth ledled yr Undeb Ewropeaidd. Mae Erthygl 5 o'r GDPR yn amlinellu saith egwyddor allweddol sydd wrth wraidd y drefn ar gyfer diogelu data cyffredinol. Mae Erthygl 5(1) yn ei gwneud yn ofynnol i ddata personol:
 - a. gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn dull tryloyw mewn perthynas ag unigolion ('cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder');
 - b. gael ei gasglu at ddibenion penodol, clir a chyfreithiol heb ei brosesu ymhellach mewn dull sy'n anghydfynd â'r dibenion hynny; ni chaiff prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol eu hystyried fel rhai sy'n anghydfynd â'r dibenion cychwynnol ('cyfyngu ar ddibenion');
 - c. fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i'r dibenion y'i proseswyd ar eu cyfer ('lleihau data');
 - d. fod yn gywir, a lle mae hynny'n angenrheidiol, gael ei ddiweddarau; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, o gadw mewn golwg y dibenion y'i proseswyd ar eu cyfer, yn cael ei ddileu neu ei gywiro yn ddi-oed ('cywirdeb');
 - e. gael ei gadw mewn ffurf nad yw'n caniatáu adnabod gwrthrychau data yn hwy nag sydd ei angen at y dibenion y'i proseswyd ar eu cyfer; gellir cadw data personol am gyfnodau hwy cyn belled â bod y data personol yn cael ei brosesu yn unig at ddibenion archifo er lles y cyhoedd, ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion sefydliadol neu ddibenion ystadegol yn amodol ar

⁴⁴ GDPR – <https://gdpr-info.eu/>

⁴⁵ DPA 2018 – <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents/enacted>

⁴⁶ Canllaw'r ICO i'r GDPR – <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/special-category-data/>

weithrediad y mesurau priodol technegol a sefydliadol sy'n ofynnol gan y GDPR er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion ('cyfyngu ar storio');

- f. gael ei brosesu mewn dull sy'n sicrhau diogelu data personol mewn dull priodol, yn cynnwys ei ddiogelu yn erbyn colled ddamweiniol, dinistr neu niwed, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol ('uniondeb a chyfrinachedd').
3. Mae'r seiliau cyfreithiol dros brosesu, y gellir dod o hyd iddynt ar wefan ICO, yn cael eu hailadrodd yma:⁴⁷
 - a. **Caniatâd:** mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu eu data personol i bwrsas penodol.
 - b. **Contract:** mae angen y prosesu ar gyfer contract sydd gennych â'r unigolyn, neu oherwydd eu bod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn llunio contract.
 - c. **Rhwymedigaeth gyfreithiol:** mae angen y prosesu fel eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau contract).
 - d. **Buddiannau hanfodol:** mae angen y prosesu i ddiogelu bywyd rhywun.
 - e. **Tasg gyhoeddus:** mae angen prosesu er mwyn gallu cyflawni tasg sydd o fudd cyhoeddus neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu swyddogaeth sail glir gyfreithiol.
 - f. **Buddiannau cyfreithlon:** mae angen y prosesu ar gyfer eich buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti oni bai fod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n cael blaenoriaeth ar y buddiannau cyfreithlon hynny. (Ni fydd hyn yn berthnasol os ydych yn awdurdod cyhoeddus yn prosesu data i gyflawni eich tasgau swyddogol).
 4. Cyfrifoldeb partneriaid i'r panel Channel yw ystyried eu rôl mewn perthynas â rhannu data fel rhan o'r broses Channel. Dylid ymgysylltu â thimau cyfreithiol a llywodraethu gwybodaeth lle ystyrir yn briodol i sicrhau bod rhannu data yn angenrheidiol, cymesur a chyfreithiol. Yn ogystal, dylai sefydliadau ddogfennu natur, sail a chytundeb y rhannu data yn unol ag egwyddor atebolrwydd GDPR. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod cytundebau rhannu data yn eu lle ymhlith yr holl bartïon sydd ynghlwm sy'n cael eu diweddarau a'u cadarnhau ar y lefel briodol yn rheolaidd.

Seiliau cyfreithiol dros brosesu i'w hystyried

5. Mae'n rhaid bod gennych sail gyfreithiol ddilys dros broses data personol. Mae gwefan ICO yn darparu gwybodaeth ar adnabod ac, yn bwysicach, dogfennu'r sail gyfreithiol y mae eich panel yn ei hadnabod.⁴⁸ Wrth brosesu data categori arbennig, mae'n rhaid i chi adnabod sail gyfreithiol dros brosesu cyffredinol ac amodau ychwanegol ar gyfer prosesu'r math yna o ddata. Mae chwe sail gyfreithiol dros brosesu ar gael.

⁴⁷ <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/>

⁴⁸ Canllaw'r ICO i sail gyfreithiol dros brosesu – <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/special-category-data/>

Erthygl 6 GDPR, adran 8 DPA 2018

6. Dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR ac adran 8 o DPA 2018 gellir rhannu data os yw'n angenrheidiol at ddiben swyddogaeth statudol. Mae Channel yn swyddogaeth statudol yn unol ag adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch.

Erthygl 9 GDPR, Rhan 2 Atodlen 1 DPA 2018

7. Dan Erthygl 9(2)(g) o'r GDPR a pharagraff 6 o Ran 2, Atodlen 1 i DPA 2018, gellir rhannu gwybodaeth lle mae rhesymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, ac er cyflawni swyddogaeth statudol, a nodir yn adran 36 o'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch.
8. Efallai y bydd eich panel yn ei ystyried o fudd sylweddol i'r cyhoedd i rannu data categori arbennig at ddibenion Channel.

Data categori arbennig

9. Data personol yw data categori arbennig sydd angen ei ddiogelu yn helaethach am ei fod yn sensitif. Mae'n debygol y bydd angen data categori arbennig ar baneli Channel i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch natur y gefnogaeth sy'n ofynnol i unigolion a atgyfeirir at Channel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddata categori arbennig ar wefan yr ICO: www.cps.gov.uk/data/hate_crime/⁴⁹

⁴⁹ <https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/special-category-data/>

ATODIAD B

Partneriaid y mae'n ofynnol iddynt gydweithredu â phaneli lleol

(Atodlen 7 i'r Ddeddf – Partneriaid paneli lleol) paneli

Gweinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth

- Gweinidog y Goron.
- Adran y llywodraeth heblaw gwasanaeth cuddwybodaeth.

Llywodraeth leol

- Awdurdod lleol (heblaw awdurdod lleol sy'n aelod o'r panel dan sylw).
- Unigolyn yn cyflawni swyddogaeth awdurdod lleol drwy rinwedd cyfarwyddyd a roddwyd dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

Cyfiawnder troseddol

- Llywodraethwr carchar yng Nghymru a Lloegr (neu, yn achos carchar ar gontract, ei gyfarwyddwr).
- Llywodraethwr sefydliad troseddwr ifanc neu ganolfan hyfforddi ddiogel (neu, yn achos sefydliad troseddwr ifanc neu ganolfan hyfforddi ddiogel ar gontract, ei gyfarwyddwr).
- Pennaeth coleg diogel.
- Tîm troseddwr ifanc a sefydlwyd dan adran 39 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998.
- Darparwr gwasanaethau prawf yn yr ystyr a roddir gan adran 3(6) o Ddeddf Rheoli Troseddwr 2007.

Addysg, gofal plant ac ati

- Corfforaeth coleg chweched dosbarth yn yr ystyr a roddir gan adran 90(1) Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.
- Corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yn yr ystyr a roddir gan adran 91(3) o'r Ddeddf honno.
- Unigolyn a awdurdodwyd yn rhinwedd gorchymyn a wnaed dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 i arfer swyddogaeth a bennwyd yn Atodlen 36A i Ddeddf Addysg 1996.
- Unigolyn y gwnaed trefniadau gydag ef ar gyfer darparu addysg dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1996 neu adran 100 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (achosion o salwch, gwahardd ac ati).
- Perchennog:
 - a. ysgol sydd wedi'i chymeradwyo dan adran 342 Deddf Addysg 1996
 - b. ysgol a gynhelir yn yr ystyr a roddir gan adran 20(7) Deddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998
 - c. ysgol feithrin a gynhelir yn yr ystyr a roddir yn adran 22(9) o'r Ddeddf honno
 - d. ysgol annibynnol a gofrestrwyd dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002
 - e. sefydliad addysgol annibynnol a gofrestrwyd dan adran 95(1) Deddf Addysg a Sgiliau 2008
 - f. academi 16 i 19 oed yn yr ystyr a roddir gan adran 1B Deddf Academiâu 2010
 - g. academi darpariaeth wahanol yn yr ystyr a roddir gan adran 1C o'r Ddeddf honno
 - h. sefydliad arbennig ôl 16 oed yn yr ystyr a roddir gan adran 83(2) Deddf Plant a Theuluoedd 2014

- Unigolyn sy'n cael ei nodi neu ei enwebu mewn cyfarwyddiadau a wnaed yng nghyswllt arfer swyddogaethau awdurdod lleol a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 497A o Ddeddf Addysg 1996 (gan gynnwys yr adran honno fel y'i gweithredwyd gan adran 50 Deddf Plant 2004 neu adran 15 o Ddeddf Gofal Plant 2006).
- Unigolyn a gofrestrwyd dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 o ran:
 - a. cartref plant fel sy'n cael ei ddiffinio yn adran 1 o'r Ddeddf honno
 - b. canolfan deulu breswyl fel sy'n cael ei diffinio yn adran 4 o'r Ddeddf honno
 - c. asiantaeth faethu fel sy'n cael ei diffinio yn yr adran honno, neu
 - d. gynllun gwyliau i blant anabl, yn yr ystyr a roddir yn Rheoliadau Cynlluniau Gwyliau Cofrestredig i Blant Anabl (Lloegr) 2013 (S.I. 2013/1394)
- Corff llywodraethu sefydliad cymwys yn yr ystyr a roddir yn adran 11 Deddf Addysg Uwch 2004.
- Unigolyn a gofrestrwyd dan Bennod 2, 2A, 3 neu 3A o Ran 3 Deddf Plant 2006 neu dan adran 20 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (nawm 1).
- Corff corfforaethol y mae awdurdod lleol wedi llunio trefniadau gydag o dan Ran 1 Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.
- Unigolyn sy'n cael ei nodi neu ei enwebu mewn cyfarwyddiadau a wnaed yng nghyswllt arfer swyddogaethau awdurdod lleol a roddir gan Weinidogion Cymru dan adran 25 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (anaw 1) (gan gynnwys yr adran honno a weithredir gan adran 50A o Ddeddf Plant 2004 neu adran 29 o Ddeddf Gofal Plant 2006).
- Corff llywodraethol sefydliad addysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru.

- Corff llywodraethol neu berchennog sefydliad (nad yw'n cael ei restru fel arall) lle mae mwy na 250 o fyfyrwyr, ac eithrio myfyrwyr yn dilyn cyrsiau dysgu o bell, yn dilyn:

- a. cyrsiau i baratoi at arholiadau sy'n gysylltiedig â chymwysterau a reoleiddir gan y Swyddfa Cymwysterau a Rheoleiddio Arholiadau neu Lywodraeth Cymru
- b. cyrsiau a ddisgrifir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (cyrsiau addysg uwch)

lechyd a gofal cymdeithasol

- Grŵp comisiynu clinigol a sefydlwyd dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth lechyd Cenedlaethol 2006.
- Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth lechyd Cenedlaethol 2006.
- Ymddiriedolaeth sefydledig GIG yn yr ystyr a roddir gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth lechyd Cenedlaethol 2006.
- Bwrdd lechyd Lleol a sefydlwyd dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth lechyd Cenedlaethol (Cymru) 2006.
- Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth lechyd Cenedlaethol (Cymru) 2006.

Heddlu

- Prif swyddog heddlu dros ardal heddlu yng Nghymru a Lloegr (heblaw prif swyddog sy'n aelod o'r panel dan sylw).

ATODIAD C

Fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn

Mae'r atodiad hwn yn rhoi disgrifiad o'r fframwaith asesu i ba raddau mae unigolion yn agored i ddylanwad a ddefnyddir gan Channel i arwain penderfyniadau a oes ar unigolyn angen cefnogaeth i ymdrin â'r ffaith ei fod yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth o ganlyniad i radicleiddio a'r math o gefnogaeth sydd arnynt ei angen.

Ni ddylid tybio bod y nodweddion a nodir isod o angenrheidrwydd yn nodi bod unigolyn yn ymroddedig i derfysgaeth neu y gall fynd yn derfysgwr. Mae'r fframwaith asesu yn cynnwys tri dimensiwn: ymgysylltu, bwriad a gallu, sy'n cael eu hystyried ar wahân.

1. Ymgysylltiad â grŵp, achos neu syniadaeth.

Cyfeirir at ffactorau ymgysylltiad weithiau fel 'bachau seicolegol'. Maent yn cynnwys anghenion, tueddiadau, ysgogiadau a dylanwadau cyd-destunol a gyda'i gilydd maent yn mapio'r llwybr i derfysgaeth. Gallant gynnwys:

- teimladau o anniddigrwydd ac anghyfiawnder
- teimlo dan fgythiad
- angen am hunaniaeth, ystyr a pherthyn
- dyhead am statws
- dyhead am gyffro ac antur
- angen i feistrolï a rheoli eraill
- bod yn agored i drwytho
- dymuniad am newid gwleidyddol neu foisol
- ymwneud ar hap
- ymwneud teulu neu ffrindiau ag eithafiaeth
- bod mewn cyfnod trosiannol yn ei fywyd
- cael ei ddylanwadu neu ei reoli gan grŵp
- problemau iechyd meddwl perthnasol

2. Bwriad i achosi niwed.

Nid yw pawb sy'n ymgysylltu â grŵp, achos neu syniadaeth yn mynd ymlaen i ddatblygu bwriad i achosi niwed, felly ystyrir y dimensiwn hwn ar wahân. Mae ffactorau bwriad yn disgrifio cyflwr meddwl sy'n gysylltiedig â pharodrwydd i ddefnyddio trais ac ymdrin â'r hyn y byddai'r unigolyn yn ei wneud ac i ba ddiben. Gallant gynnwys:

- gorgysylltu gyda grŵp neu syniadaeth
- meddwl yn nhermau 'nhw a ni'
- dad-ddyneiddio'r gelyn
- agweddau sy'n cyfiawnhau troseddu
- modd niweidiol o gyflawni diben
- amcanion niweidiol

3. Gallu i achosi niwed.

Nid oes gan bawb sy'n dymuno achosi niwed ar ran grŵp, achos neu syniadaeth y gallu i wneud hynny, ac mae cynllwynion i achosi difrod eang yn gallu cymryd llawer o allu personol, adnoddau a rhwydweithio i fod yn llwyddiannus. Felly mae'r hyn y mae gan yr unigolyn y gallu i'w wneud yn ystyriaeth allweddol wrth asesu risg o niwed i'r cyhoedd. Gall y ffactorau gynnwys:

- gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau'r unigolyn
- cysylltiad â rhwydweithiau, cyllid neu offer
- gallu troseddol

4. Mae'r tri maen prawf yn cael eu hasesu drwy ystyried 22 o ffactorau a all gyfrannu at wneud unigolyn yn agored i ddylanwad (13 yn gysylltiedig ag ymgysylltu, 6 yn ymwneud â bwriad a 3 ar gyfer gallu). Gall y ffactorau hyn o'u cymryd gyda'i gilydd lunio darlun hollistaidd o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn a fydd yn

sail i benderfyniadau a oes ar yr unigolyn angen cefnogaeth a pha fath o becyn cefnogaeth all fod yn addas. Nid yw'r ffactorau hyn yn rhestr gynhwysfawr. Drwy gynnal asesiadau cyson o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn gall y cynnydd sy'n cael ei wneud wrth ei gefnogi gael ei olrhain drwy newidiadau yn yr asesiad.

5. Mae cwblhau asesiad llawn ar gyfer y 22 ffactor i gyd yn gofyn am adnabyddiaeth drylwyr o'r unigolyn na fydd ar gael, efallai, pan fydd yn cael ei atgyfeirio gyntaf. Ond mae nifer o ymddygiadau a dangosyddion eraill a all fod yn arwydd o bresenoldeb y ffactorau hyn.
6. Mae'r dangosyddion enghreifftiol bod unigolyn wedi **ymgysylltu** â grŵp, achos neu syniadaeth eithafol yn cynnwys:
 - treulio mwy a mwy o amser yng nghwmni rhai eraill a amheuir o fod yn eithafwyr
 - newid ei ddull o wisgo neu ymddangosiad i gyd-fynd â'r grŵp
 - ymddygiad o ddydd i ddydd yn troi yn gynyddol o gwmpas syniadaeth, grŵp neu achos eithafol
 - colli diddordeb mewn ffrindiau a gweithgareddau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â syniadaeth, grŵp neu achos eithafol
 - meddu ar ddeunydd neu symbolau yn gysylltiedig ag achos eithafol (e.e. y swastica i grwpiau eithafol ar y dde)
 - ymdrechion i recriwtio eraill i'r grŵp/achos/syniadaeth
 - cyfathrebiadau gydag eraill sy'n awgrymu uniaethu gyda grŵp/achos/syniadaeth
7. Mae'r dangosyddion enghreifftiol bod gan unigolyn **fwriad** i achosi niwed, defnyddio trais neu ddull anghyfreithlon arall yn cynnwys:
 - dynodi grŵp arall yn glir fel un sy'n bygwth yr hyn y maent yn sefyll drosto a beio'r grŵp hwnnw am yr holl broblemau cymdeithasol neu wleidyddol
 - defnyddio enwau sarhaus neu ddiraddiol neu labeli ar grŵp arall
 - siarad am ba mor agos yw niwed gan y grŵp arall a phwysigrwydd gweithredu yn awr

- mynegi agweddau sy'n cyfiawnhau troseddau ar ran y grŵp, achos neu syniadaeth
- cytuno â thrais neu niwed i eraill neu gefnogi hynny
- cynllwynio neu gynllunio gydag eraill

8. Mae'r dangosyddion enghreifftiol bod gan unigolyn y **gallu** i achosi niwed neu gyfrannu yn uniongyrchol neu anuniongyrchol at weithred derfysgol yn cynnwys:
 - bod â hanes o drais
 - bod yn hyblyg yn droseddol a defnyddio rhwydweithiau troseddol i gefnogi nodau eithafol
 - bod â sgiliau galwedigaethol a all alluogi gweithredoedd terfysgol (fel peirianeg sifil, fferylliaeth neu adeiladu)
 - bod ag arbenigedd technegol y gellir ei ddefnyddio (e.e. sgiliau TG, gwybodaeth am gemegolion, hyfforddiant milwrol neu sgiliau goroesi)
9. Nid yw'r enghreifftiau uchod yn hollgynhwysol a gall pobl fod yn agored i ddylanwad mewn ffyrdd eraill.
10. Dylai'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw unigolyn gael ei gwblhau i gychwyn gan y Swyddog Achos Channel ac yna gael ei gylchredeg yn llawn i aelodau'r panel cyn cyfarfodydd fel bod yr aelodau perthnasol o'r panel yn gallu cyfrannu eu gwybodaeth, eu profiad a'u harbenigedd at yr achos.
11. Dylai'r asesiad o ba mor agored i ddylanwad yw'r unigolyn gyd-fynd a bod yn sail yn hytrach na chymryd lle barn broffesiynol a/neu ffurfiau eraill o asesiad diogelu wrth benderfynu ar y mathau mwyaf addas o gefnogaeth yng nghyfarfodydd y panel.

ATODIAD D

Canllawiau perthnasol eraill

CONTEST: Strategaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer ymladd yn erbyn terfysgaeth

<https://www.gov.uk/government/publications/counter-terrorism-strategy-contest-2018>

Cyfarwyddyd dyletswydd Prevent

<https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance>

Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Plant

<https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>

Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg

<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education--2>

Deddf Gofal 2014

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/contents/enacted>

Tafleuni Gwybodaeth y Ddeddf Gofal

<https://www.gov.uk/government/publications/care-act-2014-part-1-factsheets/care-act-factsheets>

Canllaw i Ddiogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/>

Cyfrinachedd GMC: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion

<https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/confidentiality>

Llawlyfr Gwarcheidwaid Caldicott hRhannu Gwybodaeth: Cyngor i ymarferwyr sy'n rhoi gwasanaethau diogelu i blant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr

<https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-practitioners-information-sharing-advice>

Canllawiau i wasanaethau iechyd meddwl wrth gyflawni dyletswyddau i ddiogel pobl rhag radicleiddio

<https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2017/11/prevent-mental-health-guidance.pdf>

Fframwaith Hyfforddiant a Chymwyseddau Prevent GIG Lloegr

<https://www.england.nhs.uk/publication/prevent-training-and-competencies-framework/>

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 21

<https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/21>

Cadw dysgwyr yn ddiogel - mae'n rhoi cyngor ar radicleiddio ac yn ategu at y cyfarwyddyd uchod ar gyfer Cymru ar ddiogelu plant

<https://gov.wales/keeping-learners-safe>

Geirfa

CT&S Act	Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
CTCO	Swyddog Achos Gwrthderfysgaeth
CTLP	Proffil Gwrthderfysgaeth Lleol
DDP	Rhaglen Ymatal ac Ymddieithrio
DPA 2018	Deddf Diogelu Data 2018
FOI Act	Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
GDPR	Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
HRA 1998	Deddf Hawliau Dynol 1998
ICO	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
IP	Darparwr ymyriadau
MARAC	Cynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaethol
MAPPA	Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol
SAR	Cais gwrthrych am wybodaeth
SC	Gwiriad diogelwch
TACT	Deddf Terfysgaeth
TEO	Gorchymyn gwahardd dros dro
TPIM	Mesur Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth
VAF	Fframwaith asesu pa mor agored i ddylanwad yw unigolyn

